¹ <https://uksaysnomore.org/safespaces/>

² <https://gov.wales/live-fear-free>

³ www.rpharms.com/about-us/news/details/Pharmacists-suffer-the-mental-health-consequences-of-workplace-pressure

cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG. Gwnaed cynnydd da eisoes yn y maes hwn gan gynnwys:

- Datblygu porth ar y we at adnoddau lles gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW).
- Estyn y gwasanaeth blaenorol i feddygon yn unig, y gwasanaeth 'Cymorth i Weithwyr Proffesiynol Iechyd' i bob gweithiwr iechyd proffesiynol.

25. Bydd mynediad at adnoddau lles fel y rhain a chyfleoedd ar gyfer cefnogaeth emosiynol a seicolegol un i un yn parhau i fod yn bwysig yn ystod ac yn dilyn y pandemig. Dylai hyn ymestyn at fwy o gefnogaeth iechyd a lles galwedigaethol i'r holl weithwyr fferyllol proffesiynol yn unol â'r hyn a ddarperir ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol eraill y mae'r GIG yn cysylltu â hwy, gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion.

26. Mae datblygiad proffesiynol wedi parhau i fod yn bwysig i'r proffesiwn fferyllol trwy gydol y pandemig. Mae'r pandemig wedi dangos ymhellach yr angen i ddatblygu gweithlu fferyllol y gellir ei addasu a hyblyg yng Nghymru a rhaid ei gefnogi gan fynediad at ddatblygiad proffesiynol cyson a sicrwydd ansawdd. Dylai hyn gael ei ategu gan ddatblygiad fframwaith gyrfaol ôl-gofrestru cyffredin sy'n sicrhau y gall fferyllwyr ym mhob lleoliad arfer hyd eithaf eu haddysg a'u hyfforddiant.

Argymhelliad 7: Dylai gwasanaethau iechyd meddwl a lles y GIG barhau i fod ar gael i bob fferylllydd a phob grŵp gweithwyr iechyd proffesiynol yn y GIG ac sydd ar contract iddo.

Argymhelliad 8: Dylai amser addysg a hyfforddiant gwarchoddedig fod yn orfodol wrth gynllunio'r gweithlu ar gyfer pob fferylllydd.

Cynnal cyflenwad meddyginiaethau hanfodol

Prinder Meddyginiaethau

27. Rydym wedi clywed gan fferyllwyr sy'n pryderu am effaith hirdymor bosibl y pandemig ar weithgynhyrchu meddyginiaethau. Rydym yn ymwybodol bod y Llywodraeth yn monitro sut y gallai COVID-19 effeithio ar y gadwyn gyflenwi meddyginiaethau a byddem yn croesawu ymgysylltiad pellach â'r mater hwn.

28. Mae cynllunio wrth gefn yn hanfodol i liniaru ar effeithiau unrhyw waethgu i brinder meddyginiaethau oherwydd pandemig COVID-19. Dylai hyn ystyried cynlluniau hyblyg ar gyfer dychwelyd, aildddefnyddio a storio meddyginiaethau a'r posibilrwydd y bydd cyflenwi rhai meddyginiaethau yn dod yn fwyfwy anodd. Rydym yn croesawu Gwasanaeth Meddyginiaethau COVID-19 Diwedd Oes i gyflenwi Pecynnau Meddygaeth Frys 'Mewn Pryd'⁴ a chyngor ar aildddefnyddio meddyginiaethau diwedd oes mewn cartrefi gofal⁵.

29. Mae timau fferylliaeth ysbytai wedi chwarae rhan allweddol wrth gynnal cyflenwadau o feddyginiaethau gofal critigol a hylifau gwaedlif ar adegau o alw brig. Rydym yn deall bod cadwyn gyflenwi'r meddyginiaethau hyn yn fregus ledled y DU ac yn credu ei bod yn

⁴ <https://www.awttc.org/covid-19-eol-medicines-service>

⁵ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-05/guidance-for-local-health-boards-and-nhs-trusts-on-the-reuse-of-end-of-life-medicines-in-hospices-and-care-homes.pdf>

hanfodol bod byrddau iechyd yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â hyn wrth iddynt gynllunio ar gyfer gwasanaethau ar gyfer y pandemig yn ogystal â gwasanaethau arferol yn y dyfodol.

Grymuso Fferyllwyr i Reoli Prinder

30. Mae pwysau'r pandemig, ynghyd â'r prinder posibl o feddyginiaethau hanfodol, wedi atgyfnerthu pwysigrwydd galluogi fferyllwyr i reoli prinder meddyginiaethau. Cyn dechrau COVID-19, roedd Llywodraeth y DU eisoes yn adolygu effeithiolrwydd Protocolau Prinder Difrifol, y mae ein haelodau yn dweud wrthym eu bod yn rhy feichus hyd yn hyn. Rydym yn mynnu y dylid diwygio deddfwriaeth meddyginiaethau i ganiatáu i fferyllwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol i wneud mân newidiadau i bresgripsiynau pe bai meddyginiaeth allan o stoc, megis: gwahanol feintiau, cryfderau, fformwleiddiadau neu fersiynau generig o'r un feddyginiaeth (amnewidiad generig).
31. Byddai newid yn y ddeddfwriaeth ar reoli meddyginiaethau yn arbed cleifion rhag gorfod mynd yn ôl at y rhagnodydd a lleihau llwyth gwaith meddygon teulu. Ar gyfer fferyllwyr mewn gofal eilaidd mae'r amnewidiadau hyn yn arfer safonol ac yn yr Alban, mae prosesau eisoes ar waith i ganiatáu i fferyllwyr wneud ymyriadau i ddelio â phrinder meddyginiaethau. Credwn ei bod yn bryd mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn a gwella mynediad at feddyginiaethau trwy alluogi fferyllwyr cymunedol i wneud y newidiadau syml hyn. Mae ein cynigion i liniaru ar risgiau prinder meddyginiaethau wedi'u nodi yn ein safbwynt polisi ar brinder meddyginiaethau⁶.

Argymhelliad 9: Mae angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru i symud newid deddfwriaethol ymlaen er mwyn cynyddu gallu fferyllwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth glinigol a'u barn broffesiynol i reoli prinder meddyginiaethau yn fwy effeithlon.

Meddyginiaethau wedi'u paratoi ymlaen llaw

32. Gall gwaith i baratoi meddyginiaethau fel eu bod ar gael ac yn barod i'w defnyddio gan staff nyrsio a meddygol gofal dwys gymryd llawer o amser. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ofalu am gleifion ar frig y galw ac wrth wisgo PPE. Byddai'n well defnyddio'r amser a gymerir i baratoi a thrin meddyginiaethau lluosog ar gyfer cleifion sy'n ddifrifol wael ar gyfer gofal uniongyrchol i gleifion.
33. Gyda gwasanaethau eraill y GIG wedi oedi oherwydd Covid-19, mae nifer o unedau aseptic fferyllfeydd ysbyty wedi ail-gyfeirio eu hamser i baratoi'r meddyginiaethau hyn i chwistrellau fel eu bod yn barod i'w rhoi. Mae cydweithwyr staff rheng flaen wedi croesawu hyn yn fawr. Fodd bynnag, bydd angen mwy o gapasiti i gynnal y gwasanaeth hwn ar y galw brig a phan fydd mwy o wasanaethau o ddydd i ddydd fel cemotherapi yn cael eu hailgychwyn. Rydym yn deall bod uned ganolog 'unwaith i Gymru' a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cael ei hystyried. Mae hwn yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr a dylai gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10: Dylid datblygu gwasanaeth ychwanegyn mewnwythiennol canolog (CIVAS) o feddyginiaethau parod yng Nghymru.

⁶ <https://www.rpharms.com/recognition/all-our-campaigns/policy-a-z/shortage-policy>

Cyflwyno gwasanaethau brechu

34. O ystyried eu hygyrchedd a'u profiad o roi brechiadau, mae fferyllwyr mewn sefyllfa dda i gefnogi brechu posibl yn erbyn COVID-19 yn ogystal â pharhau i gefnogi'r rhaglen brechu rhag y fflw tymhorol. Bydd cyflwyno rhaglenni brechu o'r fath yn gofyn am sicrwydd y gall gweithwyr iechyd proffesiynol weithio'n ddiogel a chael eu diogelu'n briodol. Byddem yn croesawu trafodaethau cynnar gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru ar sut y gellid bwrw ymlaen â hyn.

Cynyddu cyflymder digido mewn gwasanaethau fferyllol

Presgripsiynu Electronig

35. Mae'r pandemig cyfredol wedi atgyfnerthu'r angen brys am systemau presgripsiynu electronig mewn gofal eilaidd a gofal sylfaenol. Mae systemau presgripsiynu electronig yn caniatáu i bresgripsiynau gael eu hanfon yn ddigidol i'w gweinyddu mewn fferyllfeydd cymunedol neu ganiatáu mynediad o bell o fewn amgylcheddau ysbytai, gan ddileu'r angen am bresgripsiynau papur, cynyddu effeithlonrwydd a gwella profiad y claf.
36. Mae'r systemau presgripsiynu electronig yn Lloegr, ac i ryw raddau yn yr Alban, wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol yn ystod y cyfnod hwn. Maen nhw wedi:
- sicrhau mynediad prydlon at feddyginiaeth i gleifion
 - osgoi problemau logistaidd
 - darparu data amser real ar ddefnyddio meddyginiaethau
 - gostwng risg o drosglwyddo heintiau trwy leihau nifer yr ymwelwyr a dileu'r defnydd o bapur.
37. Mae'r angen am system presgripsiynu electronig gadarn yng Nghymru wedi cael ei gydnabod ers cryn amser. Mae cynlluniau ar gyfer system ar gyfer gofal eilaidd wedi bod ar waith yng Nghymru ers dros ddegawd, ond nid yw system ar waith o hyd. Roedd hwn hefyd yn fater y tynnwyd sylw ato yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2018 ar Reoli Meddyginiaethau a nododd ei bryderon ynghylch yr angen i foderneiddio systemau presgripsiynu⁷.

Argymhelliad 11: Mae angen datblygu a chyflwyno presgripsiwn electronig yn genedlaethol mewn gofal eilaidd a gofal sylfaenol ar frys er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a diogelwch cleifion.

Ymgynghoriadau Fideo

38. Gan ymateb i'r anghenion cyfredol, ym mis Mawrth cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddatrysiad ymgynghori fideo i bob Meddyg Teulu ledled Cymru. Rydym yn deall bod cynlluniau ar waith i ehangu'r gwasanaeth *Attend Anywhere* i ofal eilaidd a chymunedol. Byddem yn croesawu'r datblygiad hwn fel y gall cleifion barhau i elwa o'r gwasanaethau fferylliaeth gymunedol bresennol. Credwn hefyd y bydd y cam hwn yn fuddsoddiad tymor hir cadarnhaol a fydd yn bodloni nodau cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol fel yr amlinellir yn 'Cymru Iachach'

⁷ <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11478/cr-ld11478-e.pdf>

Argymhelliad 12: Dylid cefnogi datrysiadau ymgynghoriad fideo a'u cyflwyno i bob fferyllfa gymunedol yng Nghymru.

Digido ac integreiddio cofnodion iechyd a gofal

39. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd integreiddio a digido cofnodion iechyd a gofal yn llawn i wella effeithlonrwydd a diogelwch cleifion. Er ein bod wedi croesawu cyflwyno mynediad yn ddiweddar at wybodaeth am feddyginiaethau cleifion mewn sefyllfaoedd brys trwy'r Cofnod Meddygon Teulu Cymru i bob fferylllydd cymunedol, rydym yn mynnu bod dal angen cwblhau digido ac integreiddio cofnodion iechyd a gofal, gan gynnwys mynediad darllen ac ysgrifennu at gofnodion cleifion electronig a rennir.
40. Dadleuodd Adolygiad Topol fod angen hyn ar frys os yw buddion llawn meddygaeth ddigidol yn mynd i gael eu gwireddu ar gyfer y GIG, gan gynnwys diagnosis cynharach, gofal a thriniaeth wedi'i phersonoli⁸. Rydym yn llwyr gefnogi casgliadau Adolygiad Topol ac yn credu bod angen cymryd camau ar frys i yrru buddsoddiad tymor hir mewn technoleg i gefnogi gofal cleifion wrth symud ymlaen. Mae pandemig COVID-19 wedi pwysleisio'r angen i gyflawni'r uchelgeisiau hyn.

Argymhelliad 13: Gostwng risg o wallau meddyginiaeth a derbyniadau brys i'r ysbyty trwy ganiatáu i bob fferylllydd gael mynediad at gofnod cleifion electronig a rennir a'u diweddarau.

Hyderwn fod y materion hyn yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at brofiad y proffesiwn fferyllol trwy gydol y pandemig COVID-19 hyd yma. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio'n adeiladol gyda'r Pwyllgor, Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a rhanddeiliaid allweddol i leihau effaith COVID-19 ac i sicrhau y gellir cynnal a datblygu cyfraniad fferylliaeth at ofal cleifion wrth symud ymlaen. Mae croeso i chi gysylltu os bydd y Pwyllgor angen unrhyw wybodaeth bellach wrth i'r ymchwiliad pwysig hwn fynd rhagddo.

Yn gywir



Suzanne Scott-Thomas
Cadeirydd, Bwrdd Fferylliaeth RPS Cymru,



Elen Jones
Cyfarwyddwr RPS Cymru

⁸ topol.hee.nhs.uk/wp-content/uploads/HEE-Topol-Review-2019.pdf

Eitem 4



Royal College
of Physicians

Coleg Brenhinol
y Meddygon (Cymru)

Covid-19: Gwahoddiad am dystiolaeth ysgrifenedig Ymateb CBM Cymru

Amdanom ni

Mae ein 37,000 o aelodau ar draws y byd, gan gynnwys 1,300 yng Nghymru, yn gweithio mewn ysbytai ac yn y gymuned ar draws 30 o arbenigeddau clinigol gwahanol, yn rhoi diagnosis ac yn trin miliynau o gleifion ag amrediad enfawr o gyflyrau meddygol, gan gynnwys strôc, gofalu am bobl hŷn, diabetes, cardioleg a chlefydau anadlol. Rydym yn ymgychu am welliannau i ofal iechyd, addysg feddygol ac iechyd y cyhoedd.

Yng Nghymru, rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda byrddau iechyd a sefydliadau eraill GIG Cymru, gan gynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru; rydym yn cynnal ymweliadau sgwrsio rheolaidd ag ysbytai lleol i gwrdd â'r cleifion a'r staff; ac rydym yn cydweithio â sefydliadau eraill i godi ymwybyddiaeth o heriau iechyd y cyhoedd.

Rydym yn trefnu cynadleddau, digwyddiadau addysgu a gweithdai o safon uchel, sy'n denu cannoedd o feddygon bob blwyddyn. Mae ein gwaith gyda Chymdeithas y Meddygon yng Nghymru yn ceisio arddangos arfer gorau drwy gystadlaethau poster a gwobrau i hyfforddeion. Rydym hefyd yn cynnal aelodaeth lwyddiannus iawn CBM bob dwy flynedd a seremoni'r gymrodoriaeth i Gymru.

Er mwyn helpu i siapia gofal meddygol yng Nghymru yn y dyfodol, ewch i'n gwefan:

<https://www.rcplondon.ac.uk/about-rcp/whos-who/people/cymru>

I roi eich barn i ni – neu i ofyn am wybodaeth bellach – anfonwch e-bost atom i:

wales@rcplondon.ac.uk

Trydarwch eich cefnogaeth:

[@RCPWales](https://twitter.com/RCPWales)

I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â:

Uwch Gyngorydd Polisi ac Ymgyrchoedd (Cymru)

Coleg Brenhinol y Meddygon Cymru

Tŷ Baltic | Baltic House
Sgwâr Mount Stuart Square
Caerdydd | Cardiff CF10 5FH
020 3075 1513
www.rcplondon.ac.uk/wales

seneddhealth@assembly.wales

12 Mai 2020

Covid-19: Gwahoddiad am dystiolaeth ysgrifenedig

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i wahoddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am dystiolaeth ysgrifenedig ar Covid-19. Defnyddiodd Coleg Brenhinol y Meddygon Cymru ganlyniadau'r ddau arolwg a gynhaliwyd gennym a oedd yn edrych ar argaeledd Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ac argaeledd profion i'n haelodau a'n cymrodyr, ein meddygon dan hyfforddiant a'n meddygon arbenigol, ac aelodau ein rhwydwaith gofawyr cleifion yng Nghymru i gynhyrchu'r ymateb hwn.

Byddwn yn fodlon trefnu dystiolaeth ysgrifenedig neu lafar bellach pe byddai hynny'n ddefnyddiol.

Enw'r sefydliad: Coleg Brenhinol y Meddygon (CBM) Cymru
Cyswllt arweiniol: Uwch Gynghorydd Polisi ac Ymgyrchoedd (Cymru)

Ein hymateb

Cyflwyniad

Croesawn ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i COVID-19.

Fel sefydliad iechyd blaenllaw, sydd â'r nod o ganolbwyntio ar unigolion o dan arweiniad clinigol, mae ein haelodau'n ymrwymedig i gefnogi'r ymateb rhyngwladol i COVID-19 ac rydym yn gwneud cyfraniad i ymateb y GIG yng Nghymru.

Mae CMB wedi bod yn olrhain effaith COVID-19 ar glinigwyr rheng flaen yn ystod y pandemig drwy arolygon aelodaeth. Cynhaliwyd y cyntaf o'r rhain ar 1-2 Ebrill¹, ac yna'r ail un ar 22-23 Ebrill.² Derbyniwyd 120 o ymatebion i'r ddau arolwg.

Byddwn yn cynnal trydydd arolwg rhwng 13-14 Mai gyda ffocws ar ailddechrau gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID-19. Mae'r arolygon hyn, ochr yn ochr â'n hymgysylltiad parhaus gyda'n haelodau, wedi hysbysu'r dystiolaeth yn y cyflwyniad hwn.

Crynodeb

¹ CBM (2020) [arolwg cyntaf aelodau](#) ynghylch effaith y Coronafeirws

² CBM (2020) [ail arolwg aelodau](#) ynghylch effaith y Coronafeirws

- Bu gwelliannau yn y ffordd y cafodd y coronafeirws ei reoli yn ystod y mis diwethaf, gyda gostyngiad yn nifer yr absenoldebau staff a chynnydd yn y mynediad at brofion ar gyfer gweithwyr rheng flaen y GIG. Ond mae ein hymatebwyr yn parhau i amlygu'r problemau clir sy'n parhau o ran mynediad at Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) a mynediad at brofion ar gyfer aelodau aelwydydd gweithwyr y GIG.
- Mae CBM Cymru yn bryderus bod y mynediad at PPE wedi gwaethygu, er gwaethaf ffocws cyhoeddus uwch ar y mater. Gostyngodd y mynediad at PPE yn ystod mis Ebrill, gyda mwy na chwarter (27%) yr aelodau'n dweud na allent gael mynediad at y PPE angenrheidiol er mwyn rheoli cleifion coronafeirws ar ddiwedd y mis, o gymharu â 22% ar y dechrau. Mae'r ffigurau hyn yn codi pryderon ynglŷn â lefel y diogelwch sy'n cael ei darparu i staff.
- Mae'n rhaid cynyddu a sefydlogi'r cyflenwad o PPE er mwyn i bob gweithiwr gofal iechyd allu cael mynediad at y cyfarpar diogelu pan fydd eu hangen arnynt. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn agored a thryloyw gyda gweithwyr y GIG ynglŷn â'r heriau a wynebwyd wrth geisio cael gaffael ar PPE – wrth wneud popeth yn eu gallu i gyfeirio'r cyflenwadau i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i gaffael PPE a sefydlogi logisteg er mwyn sicrhau na fydd unrhyw staff y GIG a staff gofal cymdeithasol heb y lefelau priodol o PPE pan fyddant eu hangen.
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ddatblygu'r mynediad at brofion i sicrhau bod aelodau aelwydydd staff y GIG yn gallu cael mynediad at brofion. Mae'n rhaid canolbwyntio hefyd ar wella'r amseroedd ar gyfer cynhyrchu'r canlyniadau.
- Dylai Llywodraeth Cymru geisio parhau i feithrin ymddiriedaeth gyda'r gweithwyr proffesiynol drwy fod yn agored a thryloyw ynglŷn â'r heriau parhaus.
- Dylai Llywodraeth Cymru geisio dysgu'r gwersi o'r ychydig fisoedd diwethaf a gweithio gyda'r gweithwyr proffesiynol i sicrhau eu bod yn gweithredu ar yr hyn a ddysgwyd wrth symud ymlaen.

Pa mor llwyddiannus y mae Cymru'n delio â'r achosion

Profi a'r gweithlu

- Mae'r mynediad at brofion wedi gwella ers ein harolwg cyntaf, gyda 93% o'n haelodau â symptomau yn dweud eu bod wedi gallu cael mynediad at brofion ar gyfer eu cleifion a 91% ar eu cyfer hwy eu hunain (cynnydd o 26%). Pan oedd profion ar gael, canfuom fod yr amser ar gyfer cynhyrchu'r canlyniadau yn amrywio o 24 awr i wythnos i'r aelodau. Felly, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i weithio i gynnal profion rheolaidd gyda chanlyniadau amserol ar gyfer pob un o weithwyr y GIG yng Nghymru.

- Mae ein harolygon yn dangos bod angen gwneud mwy i gynyddu argaeledd profion i bobl sy'n byw gyda gweithwyr rheng flaen y GIG. Dywedodd 31% nad oeddent yn gallu cael mynediad at brawf ar gyfer aelod o'u haelwyd sy'n arddangos symptomau. Gallai gwybod a oes gan aelodau aelwyd y coronafeirws wneud y gwahaniaeth o ran a all gweithiwr rheng flaen y GIG ddychwelyd i'r gwaith neu hunan-ynysu o bosibl am 14 diwrnod heb gadarnhad o ddiagnosis. Mae angen i'r rhai â symptomau neu sy'n byw gydag aelod o'r aelwyd sy'n arddangos symptomau wybod cyn gynted â phosibl a ddylent orffwyo neu ddychwelyd i'r gwaith.
- Gallai'r cynnydd yn nifer y profion fod wedi lleihau'r nifer o bobl sydd i ffwrdd o'u gwaith oherwydd yr amheuir bod ganddynt COVID-19 yn ystod mis Ebrill. Dywedodd llawer o aelodau bod effeithiau negyddol posibl absenoldebau staff yn eu timau wedi'u lliniaru drwy adleoli staff. Dywedodd mwy na chwarter (29%) o glinigwyr wrthym eu bod yn gweithio mewn maes meddygaeth sy'n wahanol i'w harbenigedd arferol.
- Mae gwyliau blynyddol wedi'u canslo neu eu gohirio mewn rhai Byrddau Iechyd. Nid yw'r atebion tymor byr hyn yn gynaliadwy wrth i'r GIG ddechrau ail-agor ac annog y cyhoedd i ddod ymlaen i gael triniaeth ar gyfer canser, trawiadau ar y galon, strociau neu gyflyrau iechyd meddwl. Er bod pob ardal wedi paratoi ar gyfer cynnydd yn nifer yr achosion o COVID-19, mae'r feirws wedi effeithio ar wahanol rannau o Gymru yn fwy nac eraill. Mae hyn yn golygu, mewn rhai ardaloedd, lle mae gwasanaethau craidd wedi lleihau ond bod nifer y cleifion COVID-19 wedi bod yn gymharol isel, mae'r adnodd staff yn gryfach na'r arfer.
- Wrth i ni ddechrau aildechrau ac ailosod gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID-19, mae'n bwysig ein bod yn ymgorffori amser a gofod i staff wella, adfer ac adlewyrchu, a hefyd cynllunio ar gyfer sut y bydd lefelau staffio yn cael eu heffeithio gan gynnydd yn nifer y cleifion nad ydynt yn rhai COVID-19 wrth i'r angen i drin y feirws barhau.
- Er bod lefelau staffio wedi bod yn broblem mewn ardaloedd â nifer uwch o achosion, un o effeithiau mawr eraill absenoldebau staff yw'r effaith ar forâl timau, wrth i weithwyr rheng flaen y GIG boeni a fydd eu ffrindiau a'u cydweithwyr sy'n absennol o'r gwaith gyda salwch, gyda choronafeirws wedi'i gadarnhau neu a amheuir, yn gwella. Dywedodd llawer o ymatebwyr bod absenoldeb aelodau o staff wedi pwysleisio pwysigrwydd mynediad cyson at PPE fel y dull gorau i helpu i ddiogelu staff rhag dal y feirws yn yr achos cyntaf.

Cyfarpar Diogelu Personol

- Mae'n peri pryder bod argaeledd PPE wedi gwaethygu yn ystod mis Ebrill, gyda mwy na chwarter (27%) o aelodau CBM yn dweud nad oeddent wedi gallu cael gafael ar y PPE angenrheidiol i reoli cleifion y coronafeirws ddiwedd mis Ebrill, o gymharu â 22% ar ddechrau'r mis. Dim ond hanner y meddygon a arolygwyd oedd wedi cael mynediad cyson at gogls diogelu. Dywedodd 49% nad oedd ganddynt fynediad bob amser at feisor wyneb llawn ac ni allai 30% gael mynediad bob amser at ŵn llewys hir os oeddent yn gweithio mewn ardaloedd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol risg uchel.
- Roedd rhai aelodau o staff wedi dechrau chwilio am eu heitemau eu hunain o PPE, er enghraifft masgiau neu sgryps oherwydd eu pryderon y bydd stociau swyddogol yn dod i ben, gyda 17% yn aildefnyddio PPE oherwydd prinderau. Mae hyn yn ategu canfyddiadau Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) bod ychydig dros draean o feddygon ysbytai yn dweud eu bod wedi chwilio am

eu PPE eu hunain at ddefnydd personol neu adrannol neu eu bod wedi dibynnu ar roddion³. Mae'n rhaid i feddygon allu canolbwyntio ar drin cleifion gyda COVID-19 yn ddiogel, gan wybod bod y PPE sydd ei angen arnynt yno pan fyddant ei angen.

- Bydd PPE ond yn effeithiol pan fydd yn ffitio'n briodol, felly mae'n peri pryder nad oedd 21% wedi'u mesur i'w ffitio neu nad oeddent wedi gallu cael mynediad at wasanaeth mesur ar gyfer eu PPE. Ni ddylai clinigwyr orfod dewis rhwng diogelu eu hiechyd hwy eu hunain neu iechyd eu cleifion. Mae'n rhaid mesur a gwirio er mwyn diogelu staff yn briodol.
- Os yw masgiau'n cael eu hailddefnyddio bydd hyd yn oed yn fwy pwysig sicrhau bod profion ffitio yn cael eu cynnal i ddiogelu staff. Mae CBM wedi bod yn annog ein haelodau i gael partner PPE wrth wisgo a dadwisgo PPE er mwyn sicrhau y gwneir hynny'n gywir er mwyn lleihau'r risg. Mae'r BMA wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r problemau ychwanegol sy'n wynebu merched wrth geisio sicrhau bod eu masgiau PPE yn ffitio'n ddiogel.⁴
- Er y gyfran uchel o glinigwyr benywaidd sy'n gweithio yn y GIG,⁵ mae masgiau PPE wedi'u cynllunio ar gyfer fframiau gwrywaidd yn bennaf.⁶ Dywedodd un aelod o CBM wrthym eu bod ond wedi pasio'r prawf ffitio pan oedd y masg wedi'i osod yn dynn iawn – rhywbeth yr oeddent yn poeni na allant ei ailadrodd mewn sefyllfa frys.
- Mae masgiau PPE afloyw hefyd yn cyflwyno problemau i weithwyr gofal iechyd, cleifion a gofalgwyr sy'n fyddar neu sy'n colli eu clyw, tra bod cyflau gydag anadlyddion sy'n dryloyw wedi'u defnyddio gydag adborth cadarnhaol gan y rhai sy'n eu gwisgo a chleifion mewn rhai ysbytai. Byddai CBM yn annog timau caffael y Llywodraeth i geisio ehangu'r detholiad o gyfarpar PPE maent yn eu prynu, gyda'r nod o sicrhau bod gan bob aelod o weithlu'r GIG y PPE sydd ei angen arnynt⁸.
- Awgrymodd yr aelodau bod cyfathrebu da ynglŷn ag argaeledd PPE yn hollbwysig. Mae angen i Lywodraeth Cymru 'weithio gyda'r sector' ar negeseuon er mwyn sicrhau hyder.

Prinder meddyginiaethau a defnyddiau traul

- Fe wnaethom holi ein cymrodyr a'n haelodau hefyd ynglŷn â mynediad at feddyginiaethau, ocsigen a defnyddiau traul. Gofynnwyd a oedd y prinderau hyn yn newydd (ers COVID-19) neu'n bodoli cyn hynny.
- Dywedodd 23% bod prinderau defnyddiau traul ers COVID-19, o gymharu â 3% cyn y pandemig. Nodwyd prinderau newydd hefyd o ran meddyginiaethau ar gyfer cleifion mewnol (17% o gymharu â 9%) a chleifion allanol (12% o gymharu ag 11.5%).
- Mae'n hollbwysig bod y llif o feddyginiaethau a defnyddiau traul ar gael i staff a chleifion y GIG pan fydd eu hangen.

Ymateb byrddau iechyd

³ CBM (2020) <https://www.bma.org.uk/media/2407/bma-covid-19-survey-results-for-hospital-doctors-4-may-2020.pdf> t12

⁵ RCNI (2019) 'PPE one size fits all design is a fallacy that's putting female health staff at risk'.

⁶ Cyflogwyr GIG Cymru (2019) [Gender in the NHS](#)

⁷ TUC (2016) 'Personal protective equipment and women' t4; [Dr Helen Fidler yn y Guardian](#), Ebrill 2019.

⁸ [CPR, personal protective equipment and COVID-19](#)

- Mae angen gwerthuso'r arloesedd a welwyd yn ystod y cyfnod hwn wrth i gynlluniau gael eu datblygu er mwyn dychwelyd i GIG Cymru 'busnes fel arfer'. Bydd angen i Addysg a Gwella Iechyd Cymru ystyried meddygon dan hyfforddiant sydd wedi'u hadleoli o'u hyfforddiant arbenigedd arferol a bydd angen iddynt dychwelyd ato.
- Er nad yw rhai pethau – megis adleoli staff – yn gynaliadwy yn yr hirdymor, gallai datrysiadau eraill ar gyfer rheoli'r achosion o COVID-19, gan gynnwys apwyntiadau rhithwir ac ymgynghoriadau digidol fod yr un mor fuddiol wrth i ni symud ymlaen.
- Ym mis Rhagfyr 2019 canfu arolwg o aelodau CBM bod llai na 10% o'r ymatebwyr wedi cynnal mwy na 4% o'u hymgyngoriadau cleifion allanol drwy fideo yn yr wythnos ddiwethaf⁹. Ond mae cadw pellter cymdeithasol wedi gorfodi mwy o glinigwyr i ymgorffori dulliau cyfathrebu digidol yn gyflym i'w harfer – gydag ymateb cadarnhaol ar y cyfan gan y staff. Gallai ffyrdd newydd o weithio fod yn elfen bositif o'r pandemig.

Adsefydlu

- Yn rhai o'r achosion mwy difrifol o COVID-19 bydd adferiad yn golygu'r angen am wasanaethau adsefydlu. Mae'n rhaid cydnabod bod adsefydlu yn rhan hollbwysig o adferiad COVID-19, a bydd angen i arweinwyr a llunwyr polisi gymryd camau gweithredu brys i sicrhau bod hynny'n cael ei gyflawni.
- Mae angen dull gweithredu strategol cynhwysfawr er mwyn cyflawni anghenion adsefydlu wrth i ni weithio i helpu'r ymdrechion o adfer o'r pandemig.

Diogelwch cleifion a staff

Effaith COVID-19 ar gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME)

- Mae data wedi dangos i ni fod 94% o'r meddygon sydd wedi marw o COVID-19 o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Mae CBM wedi galwn ddiweddar am asesiad risg unigol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd mewn meysydd or fath yn sgil y broblem frawychus hon.¹⁰
- Felly, mae CBM yn croesawu'r cyhoeddiad y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i pam fod nifer uchel o bobl o gefndiroedd BAME yn marw o'r feirws. Gorau po gyntaf i ni gael mwy o fanylion am yr ymchwiliad a phryd y caiff ei lansio.

Hyfforddiant, Addysg ac ymchwil

- Yn ystod y pandemig mae llawer o hyfforddeion wedi bod yn gweithio mewn rotâu brys. Mae angen symud hyfforddeion i restrau dyletswyddau 'arferol' cyn gynted â phosibl. Mae angen i ni wneud yn siŵr hefyd bod pobl yn cael amser digonol i orffwys ac adennill nerth yn dilyn y ddau fis diwethaf.

⁹ RCP (2019) <https://www.rcplondon.ac.uk/news/survey-reveals-barriers-providing-good-care-and-confidence-new-solutions>

¹⁰ [asesiad risg unigol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd](#)

- Mae angen i ni ddychwelyd ein hyfforddeion academaidd clinigol yn ôl i'w meysydd ymchwil a chwilio am ffyrdd i estyn eu hamser yn yr ymchwil er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais. Mae gofal gwell i gleifion yn fwyaf tebygol o gael ei gyflawni mewn unedau lle mae clinigwyr yn cyfranogi mewn ymchwil. Mae angen diogelu'r amser ar gyfer hyn ac mae angen ymrwymiad i fuddsoddi mewn niferoedd cynyddol o ffyrwyr meddygol yng Nghymru.
- Mae'n bwysig estyn cyfleoedd hyfforddiant i feddygon a galluogi datblygiad gyrfaoedd hyblyg, gyda'r nod o ehangu a chreu'r gweithlu modern a fydd yn darparu gofal unffurf o ansawdd uchel ar draws Cymru gyfan.

Iechyd a llesiant staff

- Mae symud gwahanol rannau o'r gweithlu wedi bod yn un o lwyddiannau'r ymateb i'r pandemig. Mae angen ailddosbarthu'r gweithlu'r estynedig hwn ar gyfer y cam nesaf ac mae hyn yn creu rhai problemau.
- Dangosodd ein harolwg nad yw tua thraean (29%) o feddygon yn gweithio yn eu meysydd clinigol arferol. Bydd angen ailddyrrannu staff yn ofalus. Mae'n rhaid i ni fod yn ystyriol y bydd angen amser ar weithwyr gofal iechyd i adfer ac mae angen i ni fod yn siŵr y bydd gofynion y don gyntaf wedi lleihau digon i sicrhau capasiti priodol ar gyfer pob arbenigedd.
- Staff yn cael eu hadleoli i faes meddygaeth aciwt a meysydd eraill, roedd 41% o'r rhai a oedd yn gweithio y tu allan i'w harbenigedd o'r farn nad oeddent yn derbyn digon o gefnogaeth yn seicolegol ac emosiynol. Mae'n hollbwysig peidio â thanamcangyfrif effaith COVID-19 a gweithio mewn meysydd newydd a bod llesiant staff yn cael ei ddiogelu. Mae'n rhaid i ni gymryd gofal hefyd wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, er mwyn sicrhau y gall staff gael amser i ffwrdd ac adfer yn dilyn cyfnodau o weithgareddau yn y dyfodol.
- Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd hyd yma i gefnogi iechyd a llesiant meddyliol gweithwyr iechyd y rheng flaen. Mae'n bwysig peidio â thanamcangyfrif effaith COVID-19 ar iechyd a llesiant meddyliol meddygon a'r effaith ddilynol ar allu'r GIG i ddelio â'r achosion.
- Er nad yw staff yn absennol o'r gwaith eto o ganlyniad i hyn, bydd llawer yn profi anawsterau iechyd meddwl dealladwy. Roedd 41% o'r rhai a oedd yn gweithio mewn maes clinigol gwahanol i'r arfer o'r farn nad oeddent wedi derbyn digon o gefnogaeth seicolegol neu emosiynol. Dangosodd arolwg arall i'r IPPR bod 50% o weithwyr gofal iechyd wedi dweud bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethgu ers i'r feirws ddechrau¹¹. Mae'n rhaid i amser i ffwrdd i staff y GIG a staff gofal cymdeithasol orffwys ac adennill nerth fod yn rhan o unrhyw gynllun y Llywodraeth i 'aildechrau' gwasanaethau craidd y GIG yng Nghymru.
- Mae'r mesurau sydd wedi'u gweithredu ar gyfer llesiant ar draws pob bwrdd iechyd ar gyfer y cam aciwt wedi'u croesawu. Mae tystiolaeth yn dangos y gall meddygon fod yn eu swyddi am rhwng tair a phum mlynedd, a gall hyn arwain weithiau at straen ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae angen buddsoddiad tymor hwy yn y maes hwn ac mae CBM yn cynhyrchu cynllun mapio Llesiant.

¹¹ IPPR (2020) [Care Fit for Carers](#), t12.

Y gweithlu rhyngwladol


- Fe gomisiynodd CBM YouGov yn ddiweddar i gynnal arolwg barn. Mae'r canlyniadau'n dangos cefnogaeth gyhoeddus glir i gydnabod cyfraniadau staff y GIG a staff gofal cymdeithasol sydd wedi gweithio yn ystod y pandemig coronafeirws.
- Roedd chwedeg saith y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n annhebygol y byddai'r GIG wedi gallu mynd i'r afael â'r coronafeirws heb staff rhyngwladol, ac roedd 55% o'r farn y dylai staff rhyngwladol sydd wedi gweithio yn y GIG yn ystod y pandemig coronafeirws gael yr hawl i aros yn y DU yn barhaol.
- Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i lawer o bobl sy'n dod i weithio yn y DU dalu ffi flynyddol ymlaen llaw (Gordal Iechyd y GIG) er mwyn bod yn gymwys i ddefnyddio'r GIG yn ogystal â thalu ei ffioedd fisa. Dangosodd arolwg Today bod 59% o'r cyhoedd o'r farn na ddylai staff rhyngwladol y GIG a gofal cymdeithasol orfod talu tâl blynyddol i ddefnyddio'r GIG.
- Datgelodd yr arolwg hefyd werthfawrogiad aruthrol y cyhoedd am staff rhyngwladol y GIG a gofal cymdeithasol sydd wedi gweithio drwy'r pandemig COVID-19, gyda 66% ohonynt yn galw i'r llywodraeth gydnabod eu cyfraniadau amhrisiadwy yn gyhoeddus.
- Mae CBM wedi galw ar y llywodraeth i greu cytundeb newydd ar gyfer staff rhyngwladol y GIG a gofal cymdeithasol, sy'n cydnabod eu rôl hollbwysig yn yr ymateb rheng flaen i COVID-19 a'r rhan bwysig y byddant yn parhau i'w chwarae yn y dyfodol.
- Mae'r cytundeb newydd arfaethedig yn cynnwys tri chais:
 - Y dylai pob aelod o staff y GIG a gofal cymdeithasol, a'u priod a'u dibynnyddion, gael eu heithrio o'r Gordal Iechyd Rhyngwladol.
 - Y dylai pob aelod o staff y GIG a gofal cymdeithasol sydd wedi gweithio yn ystod y pandemig, a'u priod a'u dibynnyddion dderbyn caniatâd amhenodol i aros.
 - Y dylai Fisa arfaethedig y GIG gael ei ymestyn i staff gofal cymdeithasol.

Beth yr ydym yn ei wneud

- Mae CBM yn parhau i godi materion sy'n bwysig i'n haelodau, gan gynnwys y cyflenwad o PPE a mynediad at brofion ar bob cyfle sydd ar gael. Mae Is-lywydd CBM Cymru, Dr Olwen Williams, yn parhau i weithio'n agos gydag arweinwyr cenedlaethol GIG Cymru ar draws y DU, gan gynnwys y Prif Swyddogion Meddygol a chyfarwyddwyr meddygol cenedlaethol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi ein haelodau gyda mynediad at ddeunyddiau datblygu, adnoddau llesiant ac arweiniad.

Tystiolaeth bellach

Fel rhan o'n tystiolaeth rydym hefyd yn cyflwyno adroddiadau ac argymhellion canlynol CBM Cymru i'w hystyried. Mae pob un ohonynt ar gael isod neu ar ein gwefan.

- 
- [Arolwg o gymrodyr ac aelodau ynglŷn ag effaith COVID-19](#) (2020)
 - [Amser ar gyfer ymchwil: Darparu gofal arloesol i gleifion yng Nghymru](#) (2019)
 - [Gwneud pethau'n wahanol: Cefnogi meddygon iau yng Nghymru](#) (2019)
 - [Teimlo'r straen: Gofal i gleifion mewn GIG sydd dan bwysau yng Nghymru](#) (2017)
 - [Meddygon ar y rheng flaen: Y gweithlu meddygol yng Nghymru yn 2016](#) (2016)



Cyflwyniad ysgrifenedig i Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i achos Covid-19 ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Cyflwyniad

- Mae Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr yn sefydliad aelodaeth broffesiynol ac elusen gofrestredig, sy'n bodoli i hyrwyddo gofal cleifion. Rydym yn cefnogi bron i 1000 o aelodau yng Nghymru a bron i 30,000 o aelodau yn y DU ac yn rhyngwladol trwy wella eu sgiliau a'u gwybodaeth, hwyluso ymchwil a datblygu polisi ac arweiniad.
- Trwy gydol y pandemig COVID-19, rydym wedi bod yn benderfynol yn ein hymdrechion i sicrhau bod llawfeddygon a thimau llawfeddygol yn cael eu cefnogi i ddarparu gofal hanfodol i gleifion ac nad ydynt yn agored i risg ddiangen.
- Gyda hyn mewn golwg, rydym yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'r achosion o Covid-19 ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Argymhellion allweddol:

1. Mae arosiadau hir am lawdriniaeth wedi'i chynllunio yn cael ystod o effeithiau negyddol ar gleifion. Dylai Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd ystyried ar frys pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i gefnogi cleifion wrth iddynt aros am lawdriniaeth.
2. Mae COVID-19 wedi cael effaith niweidiol ar les seicolegol staff y GIG sy'n gweithio dan bwysau enfawr. Rhaid ystyried bod cefnogaeth i iechyd meddwl a lles staff y GIG yn flaenoriaeth.
3. Dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, rhaid cymryd pob cyfle i gefnogi hyfforddeion llawfeddygol i ennill profiad ac amser hyfforddi a chwblhau eu hyfforddiant.
4. Er mwyn amddiffyn cleifion a galluogi llawfeddygaeth frys i barhau trwy'r pandemig, dylid sefydlu safleoedd COVID ysgafn ar gyflymder ledled Cymru. Dylai'r rhain gael eu cynllunio'n strategol ac ar y cyd ar draws ffiniau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau dull cyson, tryloyw a thegwch mynediad i gleifion.

5. Dylai Byrddau Iechyd ddechrau cynllunio nawr ar gyfer adfer gwasanaethau llawfeddygol yng Nghymru. Rhaid i aildechrau llawfeddygaeth fod yn flaenoriaeth genedlaethol. Mae'n allweddol i iechyd y genedl a'n hiechyd economaidd ehangach.
6. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar frys i ddileu'r ôl-groniad rhestr aros a gefnogir gan fuddsoddiad parhaus i gynyddu gallu sylfaenol y gwasanaeth iechyd.
7. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tasglu adfer llawfeddygaeth ddewisol cenedlaethol, i gynllunio'n strategol ar gyfer adfer gwasanaethau llawfeddygol dewisol yng Nghymru.
8. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi lefelau gweithgaredd llawfeddygol dewisol misol ar gyfer Byrddau Iechyd yng Nghymru, er mwyn annog adfer gweithgaredd llawfeddygol.
9. Dylid gwneud y defnydd gorau o gapasiti yn y sector annibynnol. Ni ddylai'r rhain fod fel dewis arall i ysbytai GIG yng Nghymru, ond yn ychwanegol atynt. Dylai'r mynediad hwn fod yn deg ar draws Byrddau Iechyd.

Amseroedd aros yng Nghymru

- Mae rhestr aros enfawr am driniaeth wedi cronni yng Nghymru o dan y pandemig, gyda llawer ohonynt ar gyfer triniaethau dewisol. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos 231,022 o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos i ddechrau triniaeth ym mis Tachwedd 2020. Mae hyn yn cymharu â 22,879 ym mis Tachwedd 2019. Bellach mae 529,269 yn aros am driniaeth yng Nghymru, y nifer uchaf ers i'r cofnodion ddechrau¹.
- Mae'r rhain yn ffigurau syfrdanol. I lawer o gleifion, llawdriniaeth gywirol yw'r ffordd orau i leddfu poen gwanychol a chael pobl yn ôl i fyny ar eu traed, yn ôl i'r gwaith a mwynhau bywyd eto.
- Mae adfer gwasanaethau dewisol yng nghyd-destun COVID-19 yn cynrychioli un o'r heriau mwyaf cymhleth y mae'r GIG yng Nghymru erioed wedi'u hwynebu. Ni ddylid tanbriso graddfa'r dasg.
- Mae 'rhestr aros gudd' enfawr wedi cronni dros y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru. Gydag atgyfeiriadau am driniaeth yn sylweddol is yn ystod y pandemig, fel gyda Lloegr², gallai'r rhestr aros 'go iawn' am driniaeth fod yn llawer uwch. Dylai Llywodraeth Cymru rannu eu rhagamcanion o'r hyn y gallai hyn ei olygu ar gyfer amseroedd aros yng Nghymru.
- Rydym yn deall wrth gwrs bod COVID yn ei gwneud hi'n amhosibl i lawdriniaeth ddewisol gadw i fyny â'r galw ar hyn o bryd. Trwy gydol y pandemig, rydym wedi argymhell blaenoriaethu llawfeddygaeth ar gyfer y rhai mwyaf anghenus. Buom yn gweithio gyda'r GIG i sefydlu canllawiau blaenoriaethu, gan edrych ar sefyllfa glinigol pob claf a phenderfynu ar frys y driniaeth. Fe wnaethom osod cleifion mewn pum 'haen', gyda'r

¹ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Referral-to-Treatment/patientpathwayswaitingtostarttreatment-by-month-groupedweeks-treatmentfunction>

² <https://www.health.org.uk/news-and-comment/charts-and-infographics/non-covid-19-nhs-care-during-the-pandemic>

llawdriniaethau mwyaf brys - achub bywyd - yn parhau, a chleifion eraill wedi'u categorio yn ôl pa mor hir y gallai eu triniaeth gael ei gohirio'n ddiogel³.

- Fodd bynnag, roedd ôl-groniad llawfeddygol dewisol sylweddol eisoes yn bodoli yng Nghymru cyn y pandemig, felly mae sefyllfa sydd eisoes yn barhaol wedi dirywio lawer ymhellach.
- Bydd cyflwyno brechlyn ledled y DU yn cynnig peth achos o optimistiaeth, ond bydd yn dal i fod fisoedd lawer cyn i ni deimlo ei effaith lawn. Yn y cyfamser, mae'r GIG yng nghanol gaeaf anhygoel o heriol.

Yr effaith ar gleifion

- Mae'n bwysig cofio y gall arosiadau hir am ofal dewisol gael ystod o effeithiau negyddol ar gleifion. Y themâu cyffredin yw poen, trallod seicolegol, ofnau ynghylch dirywiad mewn iechyd, bygythiadau i gyflogaeth a cholli incwm, a diffyg ymddiriedaeth gynyddol mewn darparwyr gofal. Mae hyn yn cyfrannu at ddarlun hynod negyddol o fywyd a ddisgrifir ar ei waethaf fel bod 'ar stop' neu mewn gwlad 'dim dyn'.
- Mae arosiadau hir am lawdriniaeth hefyd mewn perygl o ddirywiad pellach yng nghyflwr cleifion, a all olygu bod angen llawdriniaeth fwy cymhleth wedyn, ac yn anffodus bydd rhai achosion lle bydd cleifion yn marw wrth aros am driniaeth⁴.
- **Dylai Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd ystyried ar frys pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i gefnogi cleifion wrth iddynt aros am lawdriniaeth.**

Gweithlu

- Mae llawfeddygon, eu timau a'u cydweithwyr ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru wedi dangos ymroddiad a gwaith caled rhyfeddol yn ystod y pandemig COVID-19.
- Fodd bynnag, yr adborth gan ein haelodau yw bod y pandemig wedi gadael staff y GIG o ystod eang o rolau wedi blino'n lân, wedi'u llosgi allan a'u trawmateiddio.
- **Mae COVID-19 wedi cael effaith niweidiol ar les seicolegol staff y GIG sy'n gweithio dan bwysau enfawr. Rhaid ystyried bod cefnogaeth i iechyd meddwl a lles staff y GIG yn flaenoriaeth.**
- Mae ein canllaw, "[Cefnogi lles llawfeddygon a thimau llawfeddygol yn ystod COVID -19 a thu hwnt](https://fssa.org.uk/userfiles/pages/files/covid19/prioritisation_master_30_12_20.pdf)" yn cynnig cyngor ar sut i adnabod pan fydd rhywbeth o'i le a beth all rheolwyr gofal iechyd ei wneud i gefnogi staff.
- Dros y misoedd nesaf bydd yn bwysig parhau i fod yn barod ar gyfer gweithlu ansefydlog sy'n gysylltiedig â blinder, salwch neu faterion cymdeithasol.
- Bydd angen ehangu'r gweithlu i adfer gwasanaethau llawfeddygol. Ni allwn ddibynnu'n llwyr ar staff sydd wedi ymddeol yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Yn ogystal, mae angen i ni hybu hyfforddiant a gwneud gwell defnydd o'r ystod o weithwyr proffesiynol sy'n ffurfio tîm llawfeddygol.

³ https://fssa.org.uk/userfiles/pages/files/covid19/prioritisation_master_30_12_20.pdf

⁴ https://fssa.org.uk/userfiles/pages/files/covid19/prioritisation_master_30_12_20.pdf

- At hynny, er y dylid ystyried ymestyn oriau llawfeddygaeth ddewisol a gweithredu ar benwythnosau, ni ddylai staff fod yn fwy na'r oriau gwaith wythnosol a argymhellir. Yn lle, dylai oriau wedi'u haddasu alluogi gweithio hyblyg, a gweithio llai nag amser llawn i aelodau timau llawfeddygol.
- Mae'n bwysig nodi bod y pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar hyfforddiant llawfeddygol ac mae risg y bydd cenhedlaeth goll o hyfforddeion llawfeddygol yn cael eu colli. Mae sicrhau llawdriniaethau dewisol ar waith eto yn hanfodol i ddyfodol y gweithlu llawfeddygol, gan fod gweithgaredd dewisol cyfyngedig wedi'i nodi fel un o'r rhwystrau allweddol i alluogi hyfforddeion i gael mynediad at amser priodol yn y theatr.
- **Dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf, rhaid cymryd pob cyfle i gefnogi hyfforddeion llawfeddygol i ennill profiad ac amser hyfforddi a chwblhau eu hyfforddiant.**

Safleoedd COVID ysgafn

- Rydym wedi bod yn galw'n gyson am sefydlu safleoedd COVID ysgafn ar gyflymder ledled Cymru fel y gellir trin cleifion sydd angen canser, llawfeddygaeth frys ac wedi'i gynllunio yn ddiogel. Ni ellir ystyried unrhyw safle yn hollol ddi-COVID, gan hyn rydym yn golygu safle ysbyty lle mai dim ond cleifion a staff sydd wedi hunan-ynysu ac wedi cael eu profi'n negyddol am COVID-19, sy'n cael mynd i mewn.
- Er bod gan bob Bwrdd Iechyd lwybrau ysgafn 'gwyrdd' neu COVID bellach ar waith, fel y dangosir gan brofiad y gaeaf hwn pan fydd derbyniadau COVID yn cynyddu, nid yw'r rhain yn ddigonol i amddiffyn gwasanaethau llawfeddygol, staff a chleifion.
- Roedd sefydlu ardaloedd COVID ysgafn yn her wirioneddol ledled Cymru. Dangosodd ein harolwg o llawfeddygon yng Nghymru a gynhaliwyd ym mis Medi 2020 nad oedd 30% o ymatebwyr yn gallu cyrchu cyfleusterau o'r fath.
- **Mae angen brys am safleoedd COVID ysgafn, wedi'u cynllunio'n strategol ac ar y cyd ar draws ffiniau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau dull gweithredu cyson, tryloyw a thegwch mynediad i gleifion yng Nghymru.**
- Mae angen i'r safleoedd weithio ochr yn ochr â phrofion rheolaidd ar gyfer staff rheng flaen asymptomatig a chleifion.

Cynllunio ar gyfer system fwy gwydn

- Dylai Byrddau Iechyd ddechrau cynllunio nawr ar gyfer adfer gwasanaethau llawfeddygol yng Nghymru. Rhaid i aildechrau llawfeddygaeth fod yn flaenoriaeth genedlaethol. Mae'n allweddol i iechyd y genedl a'n hiechyd economaidd ehangach. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar frys i gael gwared ar yr ôl-groniad rhestrau aros a gefnogir gan fuddsoddiad parhaus i gynyddu gallu sylfaenol y gwasanaeth iechyd.
- Dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi ystyriaeth frys i sefydlu tasglu adfer llawfeddygaeth ddewisol cenedlaethol i gynllunio'n strategol ar gyfer adfer gwasanaethau llawfeddygol dewisol yng Nghymru.

- **Dylid gwneud y defnydd gorau o gapasiti yn y sector annibynnol, ynghyd ag addasiadau amserlennu i gynyddu capasiti'r ysbyty. Ni ddylai'r rhain fod fel dewis arall i ysbytai GIG yng Nghymru, ond yn ychwanegol atynt.**
- Pan ddown allan o'r pandemig, rhaid inni edrych ar sut i adeiladu system iechyd fwy gwydn. Mae hyn yn golygu adolygu trefniadaeth gwasanaethau llawfeddygol ac ymrwymo i gynllun strategol ar gyfer adfer gwasanaethau llawfeddygol dewisol yng Nghymru. Bydd angen buddsoddiad parhaus yn y cynllun hwn mewn capasiti staff a gwelyau, ynghyd â chefnogaeth ar gyfer modelau gofal newydd fel hybiau llawfeddygol.
- Mae'r pandemig wedi dangos bod gweithio ar draws systemau iechyd lleol yn allweddol i ddarparu gwell gwasanaethau a gwell canlyniadau i gleifion. Dylai Byrddau Iechyd yng Nghymru weithio gyda'i gilydd i ddarparu "cyd-gymorth" ar adegau o bwysau eithafol, fel y gall llawdriniaeth barhau. Mae yna enghreifftiau o hyn yn gweithio'n dda yn Lloegr, lle mae Ymddiriedolaethau, trwy gydweithredu, wedi gallu dynodi ysbyty fel canolbwynt llawfeddygol fel y gall gweithdrefnau dewisol blaenoriaeth uchel barhau. Yn Llundain, mae gweithio ar lefel system wedi bod yn hanfodol i sefydlu rhaglen adferiad dewisol sy'n defnyddio rhai ysbytai ar draws y brifddinas fel canolfannau ar gyfer mathau penodol o driniaeth llawfeddygol.
- Er nad yw'r model hybiau llawfeddygol yn ddatrysiad "un maint i bawb", mae'n ddull defnyddiol ar gyfer rhai daearyddiaethau, ac ar gyfer rhai arbenigeddau llawfeddygol. Gall hybiau llawfeddygol fod yn gynnyrch y pandemig, ond maent hefyd yn ddull defnyddiol o fynd i'r afael â'r ôl-groniad dewisol yng Nghymru, os cânt eu cefnogi'n iawn.
- Rydym yn awyddus bod ysbryd cydweithredu yng Nghymru yn cael ei feithrin, i gadw buddion y datblygiadau hyn a sefydlu dull o ddarparu gwasanaethau llawfeddygol sydd â mynediad amserol cleifion i lawdriniaeth yn greiddiol iddo. Nid oedd atal gweithdrefnau dewisol ar ddechrau'r pandemig yn ddigwyddiad unwaith yn unig yng Nghymru. Mae llawfeddygaeth wedi'i hatal yn ystod gaeafau blaenorol oherwydd effaith afiechydon heintus eraill fel y fflw a norofeirws. Yn y dyfodol, gall defnyddio modelau fel hybiau llawfeddygol helpu i gynnal y cynllun llawdriniaeth trwy aeafau "normal". Mae'r cydgysylltu dan sylw yn golygu ei fod yn cael ei reoli orau ar lefel system.
- Gwelsom sut roedd cydweithredu rhwng clinigwyr a sefydliadau yn ystod 2020 yn allweddol i gadw gwasanaethau i fynd trwy'r pandemig. I'r gwrthwyneb, profodd yr argyfwng i fod yn rym effeithiol ar gyfer chwalu rhwystrau sefydliadol a diwylliannol. Rhaid inni gadw a meithrin y diwylliant hwn o gydweithio i greu system fwy integredig yng Nghymru, sy'n gwneud defnydd doethach o adnoddau. Mae gwneud hynny yn golygu cynllunio gwasanaethau ar ôl troed poblogaeth sy'n rhedeg ymhell y tu hwnt i un ysbyty neu Fwrdd Iechyd. Er bod cost tymor byr i newidiadau i strwythurau oherwydd yr aflonyddwch a ddaw yn sgil newid, yn y tymor hwy, os cânt eu gwneud yn dda, maent yn dod â buddion i drethdalwyr trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a buddion i gleifion o gael gwell mynediad at ansawdd uchel. gwasanaethau.
- Fodd bynnag, bydd cyfle i ddysgu'r gwersi o'r her hon ar gyfer dyfodol ymarfer llawfeddygol. Dylem ystyried sut y gall y system addasu, gan gynnwys trwy fanteisio ar dechnolegau llawfeddygol arloesol newydd, gweithredu profion cyflym, cefnogi llawfeddygon a gweithwyr proffesiynol clinigol perioperative ac ad-drefnu llwybrau gofal.

Targedau gweithgaredd

- Yn Lloegr, gosodwyd targedau estynedig gan GIG Lloegr ar gyfer Ymddiriedolaethau i adfer lefelau gweithgaredd dewisol 80% erbyn diwedd mis Medi a 90% erbyn diwedd mis Hydref 2020⁵. Roedd hyn yn rhoi cymhelliant a chyfeiriad enfawr i'r gwasanaeth iechyd i adfer gwasanaethau llawfeddygol dros yr haf, unwaith y byddai'r don gyntaf o COVID wedi diflannu.
- Yng Nghymru, ni osodwyd targed gweithgaredd cyfatebol. Ar ôl gostyngiad sylweddol yn narpariaeth llawfeddygaeth yn ystod 'ton gyntaf' y pandemig, yr adborth gan ein haelodau yng Nghymru oedd bod adferiad gwasanaethau llawfeddygaeth ddewisol yn dameidiog ac yn anghyson, gyda lefelau gweithgaredd wedi gostwng yn sylweddol hyd yn oed hyd at fis Rhagfyr. Atgyfnerthwyd hyn gan ganlyniadau ein harolwg ym mis Medi o lawfeddygon, a ddangosodd, mewn rhai arbenigeddau, mai dim ond ychydig dros draean y llawfeddygon yng Nghymru a welodd wasanaethau dewisol yn ôl i fyny⁶.
- Wrth i ni gynllunio ar gyfer adfer gwasanaethau llawfeddygol unwaith eto, mae angen i ni sicrhau bod cynllunio'n cael ei wneud yn strategol ar draws ffiniau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau llawfeddygol i gleifion.
- **Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi lefelau gweithgaredd llawfeddygol dewisol misol ar gyfer Byrddau Iechyd yng Nghymru, er mwyn annog adfer gweithgaredd llawfeddygol.**

Rheoli gwasanaethau dewisol yn ystod y pandemig

- Mae ein canllaw, '[Rheoli llawfeddygaeth ddewisol yn ystod ymchwyddiadau a phwysau parhaus COVID-19](#)' yn darparu cyfres o argymhellion ar gyfer rheoli gwasanaethau llawfeddygol dewisol yn ystod pandemig COVID-19, y gellir eu haddasu i gefnogi gwneud penderfyniadau lleol. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd yng Nghymru i ystyried y canllaw hwn i reoli gwasanaethau llawfeddygol dewisol dros y misoedd nesaf. Mae wedi'i strwythuro o dan bum prif faes:
 1. Cydweithrediad lleol ar gyfer cydgysylltu adnoddau a gofal llawfeddygol
Yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ar warchod cymdeithasol, ynysu a chadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd ar 23 Mawrth, lansiodd HMPPS strategaeth carfanau carchardai ar 31 Mawrth. Roedd hyn yn ymestyn y cysyniad o 'garfanu' i gynnwys gwarchod mewn ffordd sy'n arwain at rannu carchardai'n gompartmentau mewn ffordd effeithiol.

Mae tair elfen i Strategaeth Carfanau HMPPS; trefniadau i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i'r feirws, mesurau i ynysu'r rhai sy'n symptomatig (ac unrhyw rai sy'n rhannu celloedd â hwy) a darpariaeth i gadw carcharorion sydd newydd eu derbyn ar wahân i'r brif boblogaeth nes bod digon o amser wedi mynd heibio i symptomau COVID-19 ymddangos os ydynt wedi'u heintio. Strategaeth carfanau HMPPS yw creu o leiaf dri pharth o fewn y sefydliad er mwyn sicrhau pellter rhwng y rhai sy'n symptomatig, y rhai sydd newydd gyrraedd, a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed ym mhob carchar.

Defnyddir yr unedau gwarchod ar gyfer ynysu'r carcharorion hynny dros dro o fewn carfan unigolion sy'n agored i niwed GIG Cymru a NHS England nes

bod Llywodraeth Cymru yn cyngori nad oes angen gwarchod mwyach; gan leihau'r tebygolrwydd y bydd y grŵp bregus hwn yn cael y feirws.

Yn ogystal, yng ngharchardai Cymru, mae HMPPS wedi creu gofod ychwanegol yn ystâd y carchardai, drwy osod celloedd meddiannaeth sengl dros dro ar y cyd â'r cynllun er mwyn rhyddhau troseddwr risg isel. Mae hyn wedi cynnwys unedau yng Ngharchar Prescoed sy'n cynnig lle i 40 o ddynion, gydag unedau gwely sengl a chyfleusterau ystafell ymolchi. Yn ogystal, symudodd HMPPS ddynion o Garchardai Parc a Chaerdydd i Garchar Prescoed i ddarparu capasiti ychwanegol. Ar ben hynny, crëwyd 38 o leoedd llety ychwanegol yng Ngharchar Parc.

Ochr yn ochr â'r mesurau hyn, mae HMPPS yng Nghymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi creu canllawiau olrhain cysylltiadau cenedlaethol penodol i Gymru ar gyfer carchardai yng Nghymru. Tu hwnt i hynny, mae gan garchardai gynlluniau olrhain cysylltiadau lleol sy'n adlewyrchu natur unigol y sefydliad. Mae'r cynlluniau hyn wedi addasu'r strategaeth Profi Olrhain Diogelu sydd ar waith ar lefel genedlaethol. Mae gennym hefyd brotocolau ar waith gyda chydweithwyr yn Lloegr i rannu gwybodaeth am achosion sydd wedi croesi rhwng Cymru a Lloegr.

Ar gyfer brechiadau, mae'r Penaethiaid Gofal Iechyd ym mhob carchar wedi ymuno â'r Byrddau Cynllunio Brechu yn eu Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol. Mae pob tîm iechyd carchardai wedi cymryd rhan mewn gwaith paratoi i alluogi cyflwyno brechlynnau pan fyddant ar gael, ac mae hynny wedi cynnwys sicrhau bod cyflenwadau cyfarpar diogelu personol, gofod oergelloedd a lefelau staffio ar gael yn hawdd.

2. Cyfwerthedd o ran darparu iechyd a gofal cymdeithasol

Roedd mwyafrif yr ymatebion a gawsom yn canolbwyntio ar yr egwyddor y dylai carcharorion gael mynediad at ddarpariaeth iechyd a gofal sy'n gyfwerth â'r hyn a geir yn y gymuned, heb wahaniaethu ar sail eu sefyllfa gyfreithiol. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y system gofal iechyd gyfredol yn y carchardai yng Nghymru.

Cwestiwn

2.1 A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran sefydlu Grŵp Goruchwylio

Cynnydd

Sefydlwyd Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai newydd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a HMPPS yn ystod haf 2020, a

<p>lechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai, a'i waith hyd yma?</p>	<p>chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 26 Mehefin 2020. Cynhaliwyd ail gyfarfod ar 14 Hydref 2020 a'r cyfarfod diweddaraf ar 13 Ionawr 2021.</p> <p>Prif gylch gwaith y Grŵp yw goruchwyllo cynnydd y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai. Mae'r gwaith hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynnig goruchwyllo ac atebolrwydd i'r ymateb i COVID-19 yng ngharchardai Cymru. Mae hefyd wedi gweithredu fel pwynt dwysáu ar gyfer Byrddau Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai (PHSCP Bau), ac mae wedi hwyluso trafodaethau traws-lywodraethol ar lwybrau Brexit, Camddefnyddio Sylweddau ac Anhwylder Personoliaeth.</p>
<p>2.2 Beth yw eich barn ar gynnig HMPPS yng Nghymru y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Iechyd Carchardai Cymru i wneud gwaith cynllunio strategol ar gyfer iechyd Troseddwr yng Nghymru? Sut fyddai hyn yn sydd-fynd â'r Grŵp Goruchwyllo a'r Byrddau Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai?</p>	<p>Arweiniodd cynnig HMPPS am Fwrdd Iechyd Carchardai Cymru at sefydlu'r Grŵp Goruchwyllo Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai, sy'n cyflawni'r un swyddogaeth.</p> <p>Mae'r Grŵp Goruchwyllo yn darparu arweinyddiaeth strategol ac mae'n gweithredu fel pwynt dwysáu ar gyfer unrhyw faterion na ellir eu datrys gan y Byrddau yn lleol. Mae dwysáu i'r Grŵp Goruchwyllo yn eitem sefydlog ar agenda'r Byrddau, ac mae cynrychiolydd o'r Byrddau yn aelod o'r Grŵp Goruchwyllo hefyd. Mae templed safonol ar gyfer dwysáu i'r Grŵp Goruchwyllo wedi'i rannu â'r holl Fyrddau.</p>
<p>2.3 Pa mor hyderus ydych chi fod pob Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai yn cyfarfod yn rheolaidd a bod y trefniadau presennol yn gweithio'n effeithiol?</p>	<p>Bu mwy o ymgysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai dros y flwyddyn ddiwethaf. Erbyn hyn, mae llwybr clir i'r Byrddau gyfeirio problemau at lefelau uchaf HMPPS yng Nghymru, ac at Lywodraeth Cymru hefyd. Yn ogystal, mae Penaethiaid Gofal Iechyd pob carchar yn cyfarfod ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arweinwyr Iechyd Troseddwr Llywodraeth Cymru a HMPPS yng Nghymru bob pythefnos, lle gallant drafod unrhyw faterion sy'n codi wrth gyflawni neu unrhyw broblemau o ran gweithredu'r Byrddau.</p>
<p>2.4 Sut ydych chi'n ymateb i alwadau am Gynllun Strategol Cymru Gyfan ar gyfer iechyd mewn carchardai, gan gynnwys Cynllun</p>	<p>O ran Cynllun Strategol, mae'r Cytundeb Partneriaeth bellach ar waith. Mae hwn yn gytundeb cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, HMPPS, Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n nodi'r blaenoriaethau</p>

<p>Gweithredu Cenedlaethol i gynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i fwrw ymlaen â'r argymhellion gan unrhyw Fwrdd Iechyd Carchardai Cymru?</p>	<p>enedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer gwella iechyd mewn carchardai gyda 4 ffrwd waith glir. Mae'r blaenoriaethau'n seiliedig ar y cytundeb mai dull carchar cyfan yw hwn o wella canlyniadau iechyd a llesiant carcharorion yng Nghymru.</p> <p>Y blaenoriaethau yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd ehangach y carchardai a'i gyfraniad at wella canlyniadau iechyd a llesiant. • Iechyd meddwl a datblygu safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai. . • Camddefnyddio sylweddau a datblygu Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd ar gyfer carchardai. • Rheoli Meddyginiaethau – Dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.
<p>2.5 Beth yw eich barn am y cynigion ar gyfer arweinydd/hyrwyddwr clinigol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diffyg arweiniad ac atebolrwydd clinigol?</p>	<p>Mae Arweinydd Clinigol ar gyfer Iechyd Troseddwyr bellach wedi ymuno â'r Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai i ddarparu arweinyddiaeth glinigol ac atebolrwydd.</p>
<p>2.6 Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda HMPPS i fynd i'r afael â phryderon yn y cyfundrefnau arolygu iechyd a gofal cymdeithasol yn HMP Parc, yn benodol o ran y ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol? A oes unrhyw gyfleoedd i ddeddfu neu fynd i'r afael â'r bwch hwn fel arall pan ddaw'r contractau yn HMP Parc i ben?</p>	<p>Mae'r terfyn contract yng Ngharchar Parc wedi rhoi cyfle i'r holl bartneriaid werthuso'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol bresennol ac ystyried pa newidiadau y gellid eu gwneud i fodloni gofynion y presennol a'r dyfodol yn well. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer asesiad anghenion iechyd newydd a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod chwarter cyntaf 2021. Bydd yr asesiad o anghenion yn gwerthuso pa wasanaethau ac ymyriadau fyddai'n darparu lefelau priodol o ofal i'r boblogaeth gymhleth yng Ngharchar Parc. Bydd yr asesiad o anghenion yn dylanwadu ar y fanyleb gwasanaeth i'r dyfodol ar ddiwedd y contract presennol.</p>

Er mwyn llywio'r fanyleb gwasanaeth ymhellach, mae Bwrdd Prosiect Diwedd Contract Parc dan arweiniad HMPPS, sy'n cynnwys Ffrwd Waith Iechyd, ar waith ar hyn o bryd. Mae gan y Ffrwd Waith Iechyd nifer o grwpiau Gorchwyl a Gorffen llai, a'u prif ffocws yw ymchwilio i'r gofynion cyflawni a helpu i lywio'r trefniadau asesu a chynllunio anghenion ehangach ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Iechyd Meddwl Oedolion, Camddefnyddio Sylweddau, Gofal Wedi'i Drefnu a Gofal Heb ei Drefnu (Sylfaenol ac Eilaidd), Rheoli Meddyginiaethau ac Ieuencid.

Yn ogystal, mae grŵp penodol ar gyfer dod o hyd i ymyriadau gofal iechyd digidol i'r carchar yn y dyfodol. Mae gan bob un o'r grwpiau hyn gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, cynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol lleol a HMPPS yng Nghymru hefyd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn goruchwyllo'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngharchar Parc, yn dilyn trosglwyddo gofal eilaidd yno o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae tîm iechyd Carchar Parc, uwch reolwyr a HMPPS yn mynychu. Mae cynrychiolaeth o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, y darparwr gofal eilaidd, hefyd. Yn unol â threfniadau tebyg mewn carchardai eraill yng Nghymru, mae'r aelod o'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am adrodd ar strwythurau llywodraethu mewnol unrhyw faterion sy'n briodol yn eu barn hwy, gan gynnwys rheoli risg. Gall y grŵp hwn hefyd gyfeirio problemau i'r Grŵp Goruchwyllo Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai.

3. Mynediad at gofnodion iechyd

Mater allweddol arall yn y dystiolaeth a gawsom oedd pa mor aml y mae carcharorion yn cael eu symud rhwng carchardai, a rhwng carchardai a'r gymuned, ac effaith hyn ar barhad gofal effeithiol.

Cwestiwn

3.1 A fu unrhyw ddatblygiadau yn y meysydd a ganlyn ac, os na, pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu i alluogi:

Cynnydd

Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod y mater hwn ymhellach gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

<ul style="list-style-type: none"> ▪ timau gofal iechyd carchardai i gael mynediad at rifau GIG carcharorion pan fyddant yn y carchar; ▪ timau gofal iechyd cymunedol i gael mynediad at SystemOne y tu allan i'r carchar; a ▪ gwella cyfathrebu rhwng gwasanaethau cyfiawnder a gwasanaethau iechyd o ran dyddiadau rhyddhau a chynlluniau rhyddhau. 	
<p>3.2 Mewn perthynas â threfniadau yn HMP/YOI Parc, pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei roi i'r awdurdod lleol gael mynediad at gofnodion iechyd carcharorion ar systemOne?</p>	<p>Mae Cymru lachach yn nodi ein disgwyliad bod pawb yng Nghymru yn profi dull system gyfan o ymdrin â chymorth, gofal neu driniaeth ddi-dor drwy wasanaethau sydd wedi'u cynllunio o amgylch unigolion, yn seiliedig ar eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â deilliannau ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys sicrhau trefniadau effeithiol i ddarparu mynediad i systemau a chofnodion ar gyfer pob ymarferydd awdurdodedig.</p>
<p>4. Mynediad at ofal iechyd Am fanylion pellach, gweler yr Atodiad, meysydd yn cynnwys: Darpariaeth nyrsio Darpariaeth meddygon teulu Deintyddiaeth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd</p>	
<p>Cwestiwn</p>	<p>Cynnydd</p>
<p>4.1 Sut ydych chi'n ymateb i bryderon y proffesiynau iechyd uchod ynghylch mynediad carcharorion at ofal iechyd?</p>	<p>Dylai troseddwr gael mynediad teg at wasanaethau iechyd, naill ai mewn sefydliadau diogel neu mewn lleoliadau cymunedol. Y GIG sy'n darparu gofal iechyd mewn carchardai sector cyhoeddus, ac fe'i goruchwylir gan y Byrddau Iechyd Lleol. Mae Byrddau Partneriaeth, sy'n cael eu cyd-gadeirio gan Lywodraethwr y carchardai ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn goruchwyllo iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai sector cyhoeddus.</p>

Rydym wedi ymrwymo i wella iechyd a llesiant mewn carchardai sector cyhoeddus ond dim ond drwy 'ddull carchar cyfan' y gellir cyflawni hyn sy'n cynnwys sicrhau bod yr amgylchedd a threfn yn hybu ac yn cefnogi llesiant. Rydym wedi nodi iechyd a llesiant carchardai fel blaenoriaeth i fyrddau iechyd, sydd â chyfrifoldebau yn y maes hwn.

Rydym yn cydnabod bod troseddwyd yn boblogaeth fregus sy'n aml ag anghenion cymhleth a lefelau uchel o salwch, yn aml o ganlyniad i anghydraddoldebau. Mewn ymateb uniongyrchol, mae camau gweithredu i gefnogi'r grŵp hwn wedi'u cynnwys yn strategaethau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, atal hunanladdiad a hunan-niweidio a dementia Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yng Nghymru hefyd ar waith. Mae hwn yn amlinellu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yn cydnabod pwysigrwydd dull carchar cyfan ac mae'n cynnwys ffocws penodol ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, rheoli meddyginiaethau a rôl amgylchedd ehangach y carchardai o ran gwella iechyd a llesiant y rhai yn y carchar.

4.2 Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i wella'r sefyllfa hon?

Mae Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Carchardai bellach ar waith a bydd yn gweithredu fel pwynt dwysáu ar gyfer unrhyw faterion na ellir eu datrys yn lleol yn y Byrddau Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai. Mae dwysáu i'r Grŵp Goruchwylio yn eitem sefydlog ar agenda'r Byrddau, ac mae cynrychiolydd o'r Byrddau yn aelod o'r Grŵp Goruchwylio hefyd. Mae templed safonol ar gyfer dwysáu i'r Grŵp Goruchwylio wedi'i rannu â'r holl Fyrddau.

5. Iechyd meddwl

Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn tynnu sylw at ganran y dynion yng ngharchardai Cymru sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan gyfeirio at ymchwil ac ystadegau sy'n dangos bod pobl yn y carchar yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau iechyd meddwl na phobl yn y gymuned.

Cwestiwn	Cynnydd
<p>5.1 Nid yw'n eglur o'r Cytundeb Partneriaeth a yw'n cynnwys cynlluniau i ehangu nifer y gwelyau ysbyty diogel a'r cyfraniad y bydd y capasiti ychwanegol hwn yn ei wneud o ran lleihau amseroedd aros. A allwch chi ddarparu unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â'r pwynt hwn?</p>	<p>Ym mis Hydref 2020, diwygiwyd ac ailgyhoeddwyd y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i effaith COVID-19. Mae'r Cynllun Cyflawni diwygiedig yn cynnwys yr ymrwymiad y bydd yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol (NCCU) yn cefnogi byrddau iechyd i gynnal archwiliad o'r ddarpariaeth ddiogel bresennol ar gyfer cleifion mewnol a datblygu strategaeth ddiogel i gleifion mewnol yng Nghymru. Cynhaliwyd archwiliad o'r ddarpariaeth ddiogel bresennol ar gyfer cleifion mewnol yn 2020, gyda'r strategaeth ddiogel ar gyfer cleifion mewnol yn cael ei datblygu yn 2021.</p>
<p>5.2 A allwch chi roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran y safonau iechyd meddwl drafftio?</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Yn ymhlacen y pecyn 177</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Coleg Brenhinol y Seiciatryddion i ddrafftio'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r safonau a'u gweithredu yn 2020. Fodd bynnag, mae rhai elfennau o'r gwaith hwn wedi'u gohirio oherwydd effeithiau COVID-19. Mae safonau cyffredinol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl (sy'n cynnwys ffocws ar dderbyn ac asesu / rheoli achosion a thriniaeth / atgyfeirio, rhyddhau a throsglwyddo / profiad cleifion / diogelwch cleifion / yr amgylchedd / yr iaith Gymraeg / gallu a galluogrwydd y gweithlu / hyfforddiant, datblygu proffesiynol parhaus a chefnogaeth gweithlu / Llywodraethu / gofal iechyd meddwl 24 awr) wedi'u drafftio. Mae'r rhain yn cael eu cwblhau'n derfynol ar hyn o bryd, ynghyd â safonau penodol i gyflwr ar gyfer pobl â dementia ac awtistiaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Byrddau Iechyd a'r carchardai dros y misoedd nesaf i'w helpu i'w gweithredu.</p>
<p>6. Hunan-niweidio a hunanladdiad</p> <p>Gwyddom eisoes fod pobl yn y carchar yn wynebu risgiau sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niweidio – rhywbeth a nododd y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad ar atal hunanladdiad yn 2018. Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol wrthym y sefydlwyd gweithgor yn ystod hydref 2018 i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl cyson yng ngharchardai Cymru, ond aeth ymlaen i ddweud nad oes diweddariad wedi bod ar hyn. Yn ei ymateb i ymgynghoriad dilynol atal y Pwyllgor hwn ar hunanladdiad, nododd Coleg Brenhinol y Meddygon fod Llywodraeth Cymru wedi cysylltu ag ef ynghylch cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai. Dywedodd fod y gwaith hwn bron yn barod i ddechrau.</p>	
Cwestiwn	Cynnydd

<p>6.1 A allwch chi roi diweddariad am yr adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai yr ydych wedi'i gomisiynu gan Goleg Brenhinol y Meddygon?</p>	<p>Comisiynodd Llywodraeth Cymru Goleg Brenhinol y Seiciatryddion i ddatblygu safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Bydd angen gwneud rhagor o waith i gefnogi'r Byrddau Iechyd Perthnasol a'r carchardai – gyda'r bwriad o weithredu'r safonau newydd hyn yn 2021.</p>
<p>7. Camddefnyddio Sylweddau</p> <p>Roedd cytundeb ymhlith y rhai a gyflwynodd dystiolaeth bod angen mwy o waith i leihau effaith camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys defnyddio sylweddau seicoweithredol. Roedd angen i hyn gynnwys ymrwymiad i leihau camddefnyddio sylweddau mewn carchardai, yn ogystal â'r cyflenwad o gyffuriau anghyfreithlon mewn carchardai, a'r galw amdanynt. Cyfeiriodd HMPPS yng Nghymru at y Grŵp Cyngori Arbenigol ar gyfer Meddyginiaethau yn yr Alban, sy'n rhoi cyngor i Ganolfannau Triniaeth Cyffuriau Byrddau'r GIG ar ddefnyddio meddyginiaethau ac ymyriadau therapiwtig eraill yn briodol mewn carchardai. Hawgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno panel tebyg yng Nghymru.</p>	
<p>westiwn</p>	<p>Cynnydd</p>
<p>7.1 Beth yw eich barn ar awgrym HMPPS y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Panel Cyngori Arbenigol ar gyfer Meddyginiaethau yng Nghymru, yn debyg i'r un sydd yn yr Alban?</p>	<p>Bydd swyddogion yn trafod gyda HMPPS eu hawgrym i sefydlu yng Nghymru gorff tebyg i'r Grŵp Cyngori Arbenigol ar gyfer Meddyginiaethau yn yr Alban cyn rhoi unrhyw adborth pellach i'r Pwyllgor.</p>
<p>7.2 A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y gwaith o lunio manyleb gwasanaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru?</p> <p>7.3 A allwch chi roi diweddariad am y cynnydd gyda'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau?</p>	<p>Rydym wedi ymateb i 7.2 a 7.3 gyda'i gilydd gan eu bod yn ymwneud â'r un pwnc â'r fanyleb gwasanaeth sy'n cael ei chyfeirio ati yn y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau.</p> <p>Yn y llythyr, nodir y byddai'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn hoffi gweld hyfforddiant ar gael ar gyfer sylweddau seicoweithredol. Mae gan Lywodraeth Cymru wefan genedlaethol sy'n ymdrin â lleihau niwed yng Nghymru. Mae'r wefan hon yn cynnig deunydd e-ddysgu sy'n cynnwys modiwl ar gyfer sylweddau seicoweithredol newydd – gweler y ddolen isod</p> <p>https://www.harmreductionwales.org/cymraeg/hyfforddiant-ac-eddysgu/</p>

Yn ogystal, mae sylweddau seicoweithredol a sut i reoli unigolion sydd wedi bod yn defnyddio'r rhain yn effeithiol yn rhan o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau, gyda chynghor ar ymyriadau seicogymdeithasol.

Mae'r drafft diweddaraf o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer y Llwybr Clinigol ar gyfer Rheoli Camddefnyddio Sylweddau mewn Carchardai yng Nghymru wedi ymgorffori'r ail gyfres o adborth a sylwadau gan HMPPS, Dyfodyl, Iechyd y Cyhoedd a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar:

- Y llwybr clinigol ar gyfer asesu a rheoli camddefnyddio sylweddau gan gynnwys gofal cymhleth, dibyniaethau lluosog a defnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd
- Sgrinio, diagnosis a thrin feirysau a gludir yn y gwaed, Twbercwlosis a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Cefnogaeth i ailsefydlu yn unol â'r gwaith datblygu ar fframwaith strategol Lletya Troseddwyr Cymru
- Adlinio a datblygu'r gweithlu

Oherwydd y pandemig presennol, gohiriwyd y gyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid ledled Cymru, a disgwyli'r bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn 2021.

7.4 A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am waith y grŵp i fynd at wraidd y mater, gan gynnwys unrhyw allbynnau neu argymhellion y maen nhw wedi'u llunio?

Ataliwyd y grŵp oherwydd y pandemig, ond cyfarfu eto ar 14 Rhagfyr 2020, gyda phresenoldeb a chynrychiolaeth dda o amrywiaeth o sectorau.

Bu'r cyfarfod yn:

- Adolygu arferion gwaith yn ystod pandemig
- Nodi gwersi a ddysgwyd/meysydd gwaith newydd
- Trafod y cynllun gwaith cyfredol.

Camau gweithredu yn y dyfodol –

- Adolygu'r cynllun gwaith cyfredol erbyn 29 Ionawr 2021
- Nodi gweithredoedd newydd ac ail-flaenoriaethu pob gweithred
- Nodi a oes "enillion cyflym yn bodoli"
- Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 21 Ebrill.

8. Rheoli meddyginiaethau

Ar hyn o bryd, caiff materion rheoli meddygaeth eu trin ar lefel leol. Dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain y byddai'n croesawu mecanwaith ffurfiol ar gyfer symleiddio polisïau rhagnodi ar draws ystâd carchar Cymru, gan egluro y gall yr hyn sy'n digwydd mewn un sefydliad gael effaith enfawr ar sefydliad arall. Cyfeiriodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol at safonau proffesiynol ar gyfer optimeiddio meddyginiaethau mewn amgylchedd diogel. Mae'r rhain wedi'u hanelu at wasanaethau a ddarperir yn Lloegr fel arfer da, ond nid ydynt yn gymwys i Gymru. Fe wnaethoch chi gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain ffrwd waith rheoli meddyginiaethau y Cytundeb Partneriaeth, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. Gwaith y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn y maes hwn fyddai gwerthuso byrddau iechyd o ran eu cynnydd yn erbyn y safonau cyfredol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn amgylchedd diogel, ac yna datblygu cynlluniau ar gyfer pob carchar neu fwrdd iechyd i wella eu perfformiad yn erbyn y safonau hynny.

westiwn

Cynnydd

1.1 A allwch chi roi diweddariad am y cynnydd ran y ffrwd waith hon?

Oherwydd y lefelau uchel o bwysau a roddwyd ar dimau gofal iechyd y carchardai yn ystod y pandemig COVID-19, mae elfennau o'r ffrwd waith hon wedi'u hoedi ar hyn o bryd. Yn ogystal, gan fod newidiadau i'r drefn yn sgil ymateb i COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ddsbarthu meddyginiaeth, fe'n cynghorwyd i oedi rhai elfennau o'r ffrwd waith nes i'r systemau hyn ddychwelyd i'r drefn arferol, a hynny er mwyn osgoi ystumio'r canfyddiadau'n artiffisial.

Cyn mis Mawrth 2020, sicrhaodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol y tendr i arwain y ffrwd waith hon ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r contract yn cynnwys casglu ac asesu data cychwynnol; ymweliadau carchardai; ac Adroddiad Statws a Gwella unigol ar gyfer pob sefydliad. Drwy'r gwaith hwn, rhoddir ystyriaeth hefyd i bolisïau cenedlaethol y mae angen eu datblygu i gefnogi rheoli meddyginiaethau yn y carchardai.

Elfen allweddol o'r ffrwd waith hon oedd ymgysylltiad carchardai â thimau Fferylliaeth. Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio, ond ail-ddechreuodd ymchwil ac arolygon desg ym mis Hydref. Yn ogystal, cynhaliodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol sesiwn ymgysylltu rithwir gyda thimau iechyd carchardai yn ystod hydref 2020 i nodi blaenoriaethau'r ffrwd waith a chasglu cefnogaeth i'r archwiliad, yn ogystal â chyflwyno'r Adnodd Archwilio i'r timau. Mae

swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu cyfarfodydd misol gyda'r Contractwyr i oruchwylio'r gwaith hwn.

Yn ogystal â hyn, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i asesu gallu systemau TG presennol GIG Cymru i helpu i hwyluso'r gwaith hwn.

9. Amgylchedd y Carchar

Mae eich tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi mai HMPPS sy'n arwain y ffrwd waith mewn perthynas ag amgylchedd y carchar. Ar adeg ein sesiwn gyda chi, fe wnaethom ni ofyn ichi am y dangosyddion canlyniadau a'r mesurau perfformiad allweddol ar gyfer y ffrwd waith hon, ac fe ddywedoch chi wrthym nad oeddech yn ymwybodol ohonynt oherwydd nad oedd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau eto. Fe ddywedoch chi, er bod cynifer o'r ffactorau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r drefn mewn carchardai yn gyfrifoldeb i'r gwasanaeth carchardai oherwydd ei fod yn berchen ar strwythur ffisegol y carchar, fod gennych chi ddi-ddordeb uniongyrchol yng nghanlyniad y ffrwd waith a sut byddai'n cyfrannu at allu Llywodraeth Cymru i gyflawni dangosyddion a safonau cenedlaethol.

Argymhelliad

Cynnydd

1.1 A allwch chi roi diweddariad am ffrwd waith amgylchedd y carchar ac, yn benodol, y gwaith ddatblygu dangosyddion canlyniadau a mesurau perfformiad allweddol?

Dechreuodd ffrwd waith amgylchedd y carchar ym mis Ionawr 2020, gan ddechrau gydag ymweliadau â phob carchar yng Nghymru i gynnal grwpiau ffocws ac arolygu'r sefydliadau ar gyfer unrhyw faterion a allai effeithio ar lesiant. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys dod o hyd i feysydd o arfer gorau y gellir eu rhannu ledled Cymru. Cynhaliodd y ffrwd waith ymweliadau cychwynnol â'r carchardai rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020, a chreu adroddiadau canfyddiadau a oedd yn tynnu sylw at feysydd sy'n gweithio'n dda, meysydd i'w gwella a materion allweddol a godwyd yn y fforymau carcharorion. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Ngharchar Parc ar gyfer dynion ag Awtistiaeth, yn dilyn eu hachrediad diweddar gan y Gymdeithas Awtistiaeth.

Fodd bynnag, oherwydd y brigiad o achosion o'r Coronafeirws, bu'n rhaid i HMPPS wneud newidiadau i'r ffrwd waith i addasu ar gyfer effaith darparu adnoddau ac addasiadau i'r gyfundrefn. Mae hyn wedi arwain at oedi rhai elfennau o'r ffrwd waith ond hefyd wedi ehangu ei chylch gwaith i gynnwys newidiadau amgylcheddol mewn ymateb i COVID-19, ac ymyriadau llesiant ar gyfer staff a charcharorion. Bydd y ffrwd waith yn aildechrau gweithio ar Ddangosyddion Iechyd yr Amgylchedd pan fydd y gyfundrefn a'r cyfyngiadau cymunedol wedi eu llacio, fel y gellir cynnal y cylch nesaf o ymweliadau.

Mae'r cylch gwaith estynedig ers mis Mawrth 2020 yn cynnwys:

- Cychwyn cynllun peilot profi COVID-19 staff a charcharorion, a ddechreuodd yng Ngharchar Abertawe ar 7 Hydref ac yng Ngharchar Berwyn yr wythnos ganlynol
- Gweithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru i weithredu Modelau Cyflawni Eithriadol (EDMau), i adfer meysydd allweddol o drefn y carchardai, fel campfeydd awyr agored, addysg ac unedau rheoli troseddwr
- Datblygu pecynnau iechyd meddwl i ddynion sy'n cael eu hynysu, gan gynnwys canllawiau ar fyfyrio
- Creu cynnwys newydd ar gyfer gorsaf radio'r carchar i helpu gydag unigrwydd
- Mynediad i linell iechyd meddwl C.A.L.L. ar gael yng ngharchardai Cymru
- Gweithio gyda phartneriaid i adolygu a datblygu ffyrdd arloesol ar gyfer ymarfer mewn celloedd
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol i roi'r defnydd o iPads ar waith
- Gweithredu arwyddion ychwanegol i lywio cadw pellter cymdeithasol
- Datblygu canllawiau olrhain cysylltiadau ar gyfer pob un o'r carchardai gydag lechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymgynghoriadau achosion cymhleth parhaus gyda rheolwyr achos gan gynnwys Rheoli Integredig Troseddwr Difrifol a Pheryglus Cymru (WISDOM) ac ymgynghoriadau Llwybr Risg Uchel
- Creu pecynnau tynnu sylw ar gyfer preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth ledled carchardai a'r gwasanaeth prawf. Roedd hyn yn cynnwys addasiadau hawdd eu darllen o gyhoeddiadau cenedlaethol a lleol i gynorthwyo cyfathrebu gyda dynion ag anawsterau dysgu
- Cefnogi gwasanaeth gweithwyr cyswllt Anafiadau'r Ymennydd ledled Clystyrau Caerdydd ac Abertawe
- Ymestyn cymorth Gweithiwr Allweddol i reoli achosion cymhleth a datblygu pecynnau adnoddau Gweithiwr Allweddol i strwythuro sesiynau/cyswllt â defnyddwyr gwasanaeth yn wyneb COVID-19
- Negeseuon digidol (sain a gweledol gan y dynion i'w teuluoedd) yng Ngharchar Caerdydd
- Sefydlu ymweliadau rhithwir ar-lein ar gyfer carchardai
- Dysgu achrededig lechyd Emosiynol mewn celloedd yng Ngharchar Abertawe
- Cylchlythyrau wythnosol yn rhoi gwybod i ddynion am gyfyngiadau COVID-19
- Creu llyfrgelloedd symudol ym mhob carchar i gadw dynion yn brysur

	<p>Mae'r cynnydd allweddol a wnaed gan HMPPS i gefnogi staff ers dechrau'r achosion wedi cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda fforymau cydnerthedd lleol i hwyluso profion staff • Sesiynau ymarfer myfyrio i staff ledled y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Charchardai Sector Cyhoeddus yn ôl y gofyn, a sesiynau deialu i mewn wythnosol • Pecynnau cymorth Llesiant Staff (h.y. pecynnau lliniaru gorbryder) yn ogystal â choladu canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheolwyr ledled y Gyfarwyddiaeth • Addasu pecynnau hyfforddi sy'n bodoli eisoes fel y gellir eu dosbarthu i staff ar fideo neu weminarau (Adeiladu Cydnerthedd, Ffiniau Proffesiynol ac ati)
<p>10.2 Sut y bydd y rhain yn eich helpu chi, mewn partneriaeth â HMPPS, i fonitro cynnydd yn y maes hwn?</p>	<p>Ar ôl eu cwblhau, bydd dangosyddion iechyd yr Amgylchedd yn amlinellu meysydd ffocws penodol ar gyfer pob carchar, a fydd yn darparu llinell sylfaen i fonitro gwelliannau a llywio ymyraethau. Bydd y rhain yn bwydo i mewn i'r Dangosyddion Iechyd Carchardai Cenedlaethol sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r cytundeb partneriaeth ar gyfer iechyd troseddwyr.</p>
<p>10. Gofal cymdeithasol a phoblogaeth carchardai sy'n heneiddio</p> <p>Dydym wedi clywed yn gyson bod nifer a chyfran poblogaeth y carchardai sy'n garcharorion hŷn (a ddiffinnir fel 50 a throsodd) wedi cynyddu ac y rhagwelir y bydd yn parhau i dyfu, a bod y garfan hon o garcharorion yn debygol o fod â mwy o anghenion cymdeithasol a gofal iechyd. Dywedodd Resettlement and Care for Older ex-Offenders and Prisoners (RECOOP) mai pobl dros 50 oed yw'r grŵp sy'n tyfu gyflymaf ym mhoblogaeth y carchardai ac mai diwallu eu hanghenion fydd un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r system cyfiawnder troseddol am y blynyddoedd i ddod.</p>	
<p>Cwestiwn</p>	<p>Cynnydd</p>
<p>10.1 A allwch chi roi diweddariad i ni ar y gwaith yn y maes hwn?</p>	<p>Mae sicrhau bod carcharorion hŷn yn cael y gofal a'r cymorth cywir yn un o flaenoriaethau allweddol HMPPS yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Wrth i garcharorion fynd yn hŷn, gall eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol gynyddu hefyd. Bydd gan eraill hefyd gyflwr iechyd meddwl cyd-bresennol neu broblem iechyd cronig a/neu anabled. Gall sefydliadu fod yn broblem, yn ogystal â cholli cysylltiad â theulu a ffrindiau.</p>

Mae'r Grŵp Goruchwyllo Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai wedi nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer carcharorion hŷn ledled ystâd y carchardai. Mae'r blaenoriaethau hynny'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol strategol Llywodraeth Cymru fel y rhai a nodir yn Cymru Iachach.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a fframweithiau cysylltiedig yn sefydlu hawliau clir i ofal cymdeithasol. Fel rhan o'r bartneriaeth hon, mae'r Llwybr Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Oedolion mewn Sefydliadau Diogel yn nodi camau allweddol a'r rhai sy'n gyfrifol ar bob cam, am nodi, atgyfeirio, asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion mewn sefydliadau diogel, yn ogystal â chynllunio ar gyfer eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned, ac wrth iddynt gael eu rhyddhau.

Yn lleol, mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gan bob carchar yng Nghymru gydag awdurdodau lleol perthnasol sy'n amlinellu sut y darperir gofal cymdeithasol, ac mae'r carchardai ac awdurdodau lleol yn gweithio'n agos i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai yn rhan annatod o sicrhau a chyflawni canlyniadau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant cyson i bawb sydd yn y carchar yng Nghymru.

Mae ein dull gweithredu wedi bod yn effeithiol o ran cyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol o fewn yr amgylchedd nad yw wedi'i ddatganoli. Ar hyn o bryd, mae anghenion iechyd a gofal cymdeithasol carcharorion hŷn â Dementia yn cael eu diwallu gan wasanaethau mewngymorth neu ofal mewn ysbytai. Cyfeiriodd arolwg thematig diweddar Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o Ofal Cymdeithasol at arfer da yng Ngharchardai Caerdydd a Brynbuga a Phrescoed, gan adrodd bod y llwybr atgyfeirio wedi sbarduno targed ar gyfer sgrinio ac asesu cychwynnol gan dimau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol priodol o fewn 24 awr i'w hatgyfeirio.

Mae Dementia hefyd yn gyflwr sy'n cael ei enwi yn y Ffrwd Waith Iechyd Meddwl o dan y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai. Bydd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth

	<p>Dementia bresennol yng ngharchardai Cymru ac yn sefydlu safonau newydd ar gyfer gofal yn y maes hwn.</p> <p>Gan Garchar Brynbuga mae'r gyfran uchaf o garcharorion hŷn o'r holl garchardai yng Nghymru, gyda 10% o'r boblogaeth dros 70 oed. Mae'r carchar yn darparu'n benodol ar gyfer poblogaeth Dynion sy'n Euog o Droseddau Rhywiol, ac unigolion sy'n agored i niwed. Mae Carchar Brynbuga wedi cymryd agwedd arloesol tuag at ofalu am garcharorion hŷn ac mae wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer arfer gorau sy'n cael ei rannu ar draws ystâd Cymru.</p> <p>Er mwyn cefnogi troseddwy'r â Dementia, mae Carchar Brynbuga a Phrescoed yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol a thrydydd sector, gan eu galluogi i sicrhau gwahaniaethau gwirioneddol i'r dynion yn eu gofal. Mae'r berthynas broffesiynol y mae'r carchar wedi'i datblygu gyda Chyngor Sir Fynwy wedi bod yn hanfodol wrth ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, yn ogystal â'u partneriaeth â Byddin yr Iachawdwriaeth.</p>
<p>10.2 A allwch chi roi copi i ni o Strategaeth HMPPS ar gyfer ymdrin â phobl hŷn yn y ddalffa yng Nghymru?</p>	<p>Mae swyddogion wedi cysylltu â HMPPS yng Nghymru i holi am y strategaeth ar gyfer rheoli Pobl Hŷn yn y ddalffa yn Rhanbarth Cymru a byddant yn ei hanfon ymlaen pan fyddant yn ei derbyn.</p>
<p>10.3 Sut ydych chi'n ymateb i alwadau am strategaeth genedlaethol ar gyfer carcharorion hŷn?</p>	<p>Mae'n hanfodol bod anghenion y boblogaeth carcharorion hŷn yn parhau i gael eu hasesu a'u cynllunio'n gydlynol ledled y meysydd cyfrifoldeb datganoledig a'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli. Mae hyn yn rhan annatod o'n gwaith partneriaeth gyda HMPPS drwy'r Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai, a'r trefniadau partneriaeth lleol. Mae'r Grŵp yn arwain dull carchar cyfan o wella'r deilliannau iechyd a llesiant ledled yr ystâd yng Nghymru, gan gynnwys proffil oedran poblogaeth y carchardai sy'n esblygu a'u hanghenion am ofal a chymorth.</p> <p>Mae'r Grŵp eisoes wedi nodi amgylchedd ehangach y carchardai fel blaenoriaeth allweddol i gefnogi a sicrhau llesiant a sicrhau trefniadau iechyd a gofal cymdeithasol teg. Mae'r rhain yn gyson â blaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer carcharorion hŷn a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, sydd</p>

	<p>hefyd yn cynnwys gweithgareddau pwrpasol i droseiddwyr a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau a'u hailsefydlu.</p> <p>Ochr yn ochr â hyn, rydym yn ymgynghori ar ein gweledigaeth ar gyfer Cymru sydd o blaid pobl hŷn (https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/dogfen-ymgyngori_0.pdf). Mae ein Strategaeth ddrafft yn nodi'r nodau cenedlaethol i wella llesiant; gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol; ehangu a chynnal galluogrwydd pobl a mynd i'r afael â thlodi sy'n gysylltiedig ag oedran. Rydym wedi sicrhau bod y Strategaeth ddrafft yn amlygu anghenion carcharorion hŷn fel rhan o ddull system gyfan o ymdrin â chymorth, gofal neu driniaeth di-dor drwy wasanaethau a gynlluniwyd o amgylch unigolion, yn seiliedig ar eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau ansawdd a diogelwch.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio ledled Llywodraethau cenedlaethol, ynghyd â'r holl bartneriaid ac asiantaethau perthnasol, i sicrhau gwell deilliannau i bawb ym mhob cwr o Gymru o ran iechyd a gofal cymdeithasol ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.</p>
<p>10.4 Sut ydych chi'n ymateb i alwadau i Lywodraeth Cymru adolygu'r dyraniadau cyllid ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu'n ddigonol?</p>	<p>Cafodd sut y dosbarthwyd cyllid gofal cymdeithasol mewn carchardai ei ystyried, ei adolygu a'i gytuno gyda llywodraeth leol fel rhan o'r trefniadau ffurfiol a sefydlwyd o dan ein Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol. Diben y Cynllun yw sicrhau trefniadau cyson, teg a chyfartal i drosglwyddo grantiau penodol i'r setliad. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu cais llywodraeth leol am fwy o hyblygrwydd i reoli eu hadnoddau.</p> <p>Ail-ystyriwyd y penderfyniadau hynny ar gais Llywodraeth Cymru, yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan un awdurdod lleol. Ail-gadarnhaodd cynrychiolwyr llywodraeth leol y penderfyniad gwreiddiol i ddosbarthu'r cyllid sydd ar gael ledled pob un o'r 22 awdurdod lleol o 2018/19.</p>
<p>11. Cyllid</p>	

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ar gyfer gofal iechyd carcharorion mewn carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru drwy Floc Cymru. Ers 2004-05, mae Llywodraeth y DU yn darparu oddeutu £2.544m i Lywodraeth Cymru at y diben hwn. Fe wnaethoch chi gadarnhau nad yw trosglwyddiad y bloc wedi'i ddiweddarau ers 2004-05.

Clywsom dystiolaeth fod Llywodraeth y DU yn tanariannu carchardai yng Nghymru. Fe wnaeth y Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu nodi bod y system ariannu gyfredol ar gyfer gofal iechyd carchardai wedi dyddio, gyda Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu yn dweud bod y cyllid fel y mae ar hyn o bryd yn annigonol, a heb weld cynnydd ers i'r GIG gymryd y cyfrifoldeb am iechyd carchardai. Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol y dylai galw am ddiwygio fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Roedd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ill dau yn cytuno â hyn.

Cwestiwn	Cynnydd
<p>11.1 Pa drafodaethau diweddar a gawsoch gyda Llywodraeth y DU ynghylch trefniadau adnoddau a chyllido ar gyfer carchardai yng Nghymru?</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Yn nodwch y pecyn 187</p>	<p>Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer gofal iechyd carcharorion yn flynyddol. Yn 2014-15, derbyniodd Lywodraeth Cymru drosglwyddiad rheolaidd i Floc Cymru o £2.544m i gefnogi gofal iechyd carcharorion mewn carchardai cyhoeddus yng Nghymru. Ni ddarparwyd unrhyw gyllid penodol ychwanegol i Lywodraeth Cymru (gan Lywodraeth y DU) ar gyfer gofal iechyd mewn carchardai ers hynny.</p> <p>Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Byrddau Iechyd perthnasol ym mis Mawrth 2020 i ofyn am wybodaeth am gostau cyfredol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd yn y carchardai (gan gynnwys costau cyfalaf, refeniw a staffio blynyddol ar gyfer darparu gofal iechyd). Y bwriad oedd defnyddio'r adolygiad o gyllid hwn i lywio trafodaethau gyda Llywodraeth y DU – ynghylch cyllid ar gyfer carchardai yng Nghymru yn y dyfodol.</p>
<p>11.2 Pa waith ydych chi wedi'i wneud i adolygu lefel y cyllid a'r trefniadau ar gyfer modelau cyllid ar draws carchardai Cymru?</p>	<p>Fel y nodwyd ar gyfer cwestiwn 11.1 – Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Byrddau Iechyd perthnasol ym mis Mawrth 2020 i ofyn am wybodaeth am gostau cyfredol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd yn y carchardai (gan gynnwys costau cyfalaf, refeniw a staffio blynyddol ar gyfer darparu gofal iechyd). Y bwriad oedd defnyddio'r adolygiad o gyllid hwn i lywio trafodaethau gyda Llywodraeth y DU – ynghylch cyllid ar gyfer carchardai yng Nghymru yn y dyfodol. Mae effaith y pandemig wedi golygu bod yr adolygiad hwn wedi'i oedi yn 2020. Y bwriad yw dychwelyd i'r sgysiau hyn yn 2021, yng nghyd-destun cynllun adfer ar gyfer y carchardai.</p>

Er mwyn cefnogi blaenoriaeth iechyd y carchardai, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1 miliwn ychwanegol o gyllid rheolaidd i gefnogi byrddau iechyd lleol i wella mynediad at wasanaethau iechyd yn yr ystâd carchardai cyhoeddus. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gyd wedi derbyn cyllid a fydd yn cefnogi gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd yng Ngharchardai Abertawe, Caerdydd, a Brynbuga a Phrescoed.

O ran Carchar Berwyn, mae perthynas ariannu uniongyrchol rhwng HMPPS a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cytunwyd y bydd y cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd carchardai yng Ngharchar Berwyn yn rhan o drosglwyddiad i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol unwaith y bydd y carchar yn cyrraedd ei gapasiti ac yn gwbl weithredol.

12. Data

Mewn perthynas â chasglu data, clywsom dystiolaeth am bryderon ynghylch y set ddata gyfyngedig yn yr ystâd carchardai i Sedolion Cymru. O ran ceisio gwella'r gwaith o gasglu data, fe ddywedoch chi, "as part of the partnership agreement, we'll end up having a standard set of national indicators and we can then use those to report on for prisoner outcomes. So, that is work that is actively being pursued."

Cwestiwn

12.1 A allwch chi roi diweddariad i ni ar y gwaith yn y maes hwn?

Cynnydd

Mae'r gwaith hwn wedi'i oedi ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau adnoddau a achosir gan COVID-19.

Profiadau'r cyhoedd o'r gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu yng Nghymru

**Gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Senedd Cymru ac a gynhyrchwyd mewn
ymgyngoriad ag Ymchwil y Senedd**

Simon Williams¹, Kimberly Dienes², Paul White¹

**¹ Canolfan Pobl a Threfniadaeth, Ysgol Reolaeth, Prifysgol Abertawe, Abertawe,
Cymru, SA1 8EN.**

**Adran Seicoleg, Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Prifysgol Abertawe, Abertawe,
Cymru, SA2 8PP**

Cyswllt xxxx

PRIF GRYNODEB

Y canfyddiadau allweddol

- Profiad o'r Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu: Roedd profiad cyfranogwyr o'r gwasanaeth yn amrywiol. Roedd amrywiad sylweddol yn yr amser a gymerwyd i'r gwasanaeth gysylltu ag unigolion o amser yr amlygiad tybiedig (33 y cant o fewn diwrnod, 64 y cant o fewn 3 diwrnod, 36 y cant o fewn 4 diwrnod neu fwy). Roedd cryn amrywiad hefyd o ran amllder y cyswllt dilynol (e.e. 25 y cant yn cael cyswllt dyddiol a 50 y cant ddim yn cael unrhyw gyswllt pellach).
- Safbwyntiau ar y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu: Cymysg oedd boddhad y cyfranogwyr ar y gwasanaeth. Yn gyffredinol, roedd tua hanner (48 y cant) yn fodlon ar eu profiad o'r gwasanaeth, o'i gymharu ag ychydig dros draean (36 y cant) a oedd yn anfodlon. Roedd tua hanner ymatebwyr yr arolwg yn fodlon ar allu y gwasanaeth i ateb eu cwestiynau (54 y cant). Teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod y cyngor gan y gwasanaeth yn glir (70 y cant) ac yn hawdd ei gyflawni (76 y cant).
- Ymlyniad: Adroddwyd bod yr achosion o lynu wrth ganllawiau hunanynysu yn uchel, gydag 80 y cant o ymatebwyr yr arolwg wedi nodi eu bod wedi ynysu'n llwyr a dim ond 1 y cant yn awgrymu nad oeddent wedi ynysu o gwbl. Yr heriau i hunanynysu a nodwyd amlaf oedd: heriau iechyd corfforol (e.e. diffyg ymarfer corff, poenau anarferol ac ati) (46 y cant), heriau iechyd meddwl (e.e. pryder, teimlo'n isel, unigrwydd ac ati) (46 y cant), addasu i'r drefn ddyddiol arferol (34 y cant). Er nad ydynt mor gyffredin, ymhlith yr heriau pwysig a allai ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n hunanynysu gael cymorth ychwanegol roedd diffyg mynediad at hanfodion (20 y cant), heriau o ran ymrwymiad gofal (14 y cant) a heriau ariannol (12 y cant).
- Cynllun cymorth hunanynysu: Ychydig iawn o ymatebwyr yr arolwg (8 y cant) a gafodd wybod am y cynllun cymorth hunanynysu gan swyddogion olrhain cysylltiadau. Nid oedd ychydig dros hanner (53 y cant) yn gwybod amdano o gwbl. Roedd ychydig o dan un o bob pedwar (27 y cant) yn teimlo bod yr angen i hunanynysu yn effeithio'n negyddol ar eu hincwm (ac roedd un o bob deg (10 y cant) yn cytuno'n gryf ei fod wedi cael effaith).
- Iechyd meddwl: Un o'r prif heriau a wynebodd y cyfranogwyr oedd effeithiau hunanynysu ar iechyd meddwl. Ni wnaeth swyddogion olrhain cysylltiadau holi ynghylch lles emosiynol neu feddyliol tri chwarter ymatebwyr yr arolwg (75 y cant). Roedd dros hanner (53 y cant) yn teimlo y byddent wedi hoffi cael rhagor o wybodaeth am gymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl wrth hunanynysu.

Argymhellion allweddol

- **Argymhelliad 1:** Dylai'r gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu sicrhau bod mwy o gysondeb yn y modd y mae swyddogion olrhain cysylltiadau'n cyfathrebu â'r rhai y gofynnir iddynt hunanynysu, er enghraifft o ran yr amser y mae'n ei gymryd i gysylltu â hwy (yn gyson isel, cyn pen 1-2 diwrnod yn ddelfrydol) ac o ran pa mor aml y byddant yn cysylltu â hwy wedyn (yn gyson uchel, bob dydd yn ddelfrydol).
- **Argymhelliad 2:** Dylai'r gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu sicrhau'n gyson fod eu swyddogion yn holi *pawb* sy'n gorfod hunanynysu am eu sefyllfa ariannol ac, os yw'n berthnasol, dylent roi gwybodaeth benodol iddynt am wneud cais am daliadau hunanynysu neu fathau eraill o gymorth ariannol.
- **Argymhelliad 3:** Dylai'r gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu holi'n gyson am lesiant meddyliol ac emosiynol *pawb* sy'n gorfod hunanynysu a dylent ddarparu adnoddau a lincs a allai eu helpu i gael cymorth iechyd meddwl.
- **Argymhelliad 4:** Os *nad* yw pobl yn teimlo bod ganddynt y gallu, y cyfle neu'r cymhelliant i lynu wrth y canllawiau hunanynysu, mae angen eu cofnodi'n systematig a sicrhau eu bod yn cael adnoddau a allai eu helpu i wneud hynny.

Y CEFNDIR

Mae'r Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu yn rhan o Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Arwain Cymru allan o'r Pandemig Coronafeirws.¹ Mae'r strategaeth yn cynnwys gwyliadwriaeth iechyd cymunedol ac olrhain cysylltiadau, gyda'r nod o nodi a chefnogi'r rhai sy'n gorfod hunanynysu er mwyn lliniaru trosglwyddiad y coronafeirws yng Nghymru.² Mae'r canllawiau cyfredol yn awgrymu y dylai pobl hunanynysu am ddeg diwrnod: os ydynt yn datblygu symptomau; maent wedi cael prawf positif am Covid-19 (hyd yn oed heb symptomau); maent yn byw gyda rhywun, neu mae rhywun o'u cartref estynedig wedi datblygu symptomau neu wedi cael prawf positif; neu mae'r gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu wedi cysylltu â hwy ac wedi gofyn iddynt hunanynysu (o ganlyniad i fod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael prawf positif).³

